

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

# Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2022-27

Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

Cynnwys


1. Cyflwyniad
2. Prif Ddatganiad
3. Gweithio mewn Partneriaeth ac Ymgynghori
    - Partneriaid Cwlwm (NDNA Cymru, Blynyddoedd Cynnar Cymru, PACEY Cymru, Clybiau Plant Cymru, Mudiad Meithrin)
    - Ysgolion
    - Cyflogwyr a Sefydliadau Cyflogwyr
    - Bwrdd Diogelu Lleol
    - Plant
    - Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg
    - Asesiad Llesiant Lleol

4. Poblogaeth
5. Cyflenwad Gofal Plant
    - Trosolwg o Fathau, Gwasanaethau a Lleoedd Gofal Plant
    - Gwarchodwyr Plant
    - Gofal Dydd Llawn
    - Gofal Sesiynol
    - Darpariaeth Crèche
    - Gofal Plant y Tu Allan i Oriau Ysgol
    - Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored
    - Nanis

6. Cynnig Gofal Plant Cymru
7. Dechrau'n Deg
8. Darpariaeth Clwb Brecwast am Ddim
9. Darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen
10. Deall Anghenion Rhieni/Gofalwyr
11. Galw yn y Dyfodol
    - Canlyniadau'r Arolwg Rhieni/Gofalwyr
    - Datblygiadau Allweddol

12. Darpariaeth Drawsffiniol
13. Datblygu'r Gweithlu
14. Effaith Covid
15. Dadansoddiad o'r Bylchau
16. Cynllun Gweithredu

## 1) Cyflwyniad

Mae adran 22 o Ddeddf Gofal Plant 2006 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, ddarpariaeth o ofal plant sy'n ddigonol i fodloni gofynion rhieni yn eu hardal i'w galluogi i wneud y canlynol:

- dechrau neu aros mewn gwaith; neu
- ymgymryd ag addysg neu hyfforddiant y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddo eu cynorthwyo i gael gwaith.

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gynnal asesiad llawn o'r ddarpariaeth gofal plant yn eu hardal gan ystyried y cyflenwad a'r galw a safbwyntiau rhanddeiliaid. Rhaid iddynt gynnal asesiad o leiaf bob pum mlynedd a pharhau i adolygu eu hasesiad rhwng y prif asesiadau, fel rhan o'u hadroddiad blynyddol i Lywodraeth Cymru.

Wrth benderfynu a yw'r ddarpariaeth gofal plant yn ddigonol, rhaid i'r awdurdod lleol roi sylw i anghenion rhieni yn eu hardal o ran y canlynol:

- y ddarpariaeth gofal plant y mae elfen gofal plant credyd treth gwaith neu gredyd cynhwysol yn daladwy mewn perthynas â hi
- y ddarpariaeth gofal plant y mae gofal plant â chymorth cyflogwr neu ofal plant di-dreth yn daladwy mewn perthynas â hi
- y ddarpariaeth gofal plant i blant anghenion addysgol arbennig neu sydd angen gofal arbenigol oherwydd anabledd
- y ddarpariaeth gofal plant sy'n cynnwys defnyddio'r Gymraeg
- y ddarpariaeth gofal plant sy'n eu galluogi i fanteisio ar eu hawl i addysg gynnar yn y Cyfnod Sylfaen
- y ddarpariaeth gofal plant sy'n eu galluogi i gael mynediad at eu hawl i leoedd gofal plant a ariennir

Mae'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant hwn wedi'i gynnal gan ddefnyddio amrywiaeth o fethodolegau i gasglu gwybodaeth yn ymwneud â'r cyflenwad gofal plant, y galw am ofal plant, a safbwyntiau am y farchnad gofal plant ym Mlaenau Gwent gan randdeiliaid allweddol. Mae data am gyflenwad wedi'i ddarparu'n bennaf i awdurdodau lleol drwy broses y Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth a gynhaliwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Fodd bynnag, ni wnaeth nifer fach iawn o ddarparwyr lleol gydymffurfio â'r gofyniad i gwblhau proses y Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth ac felly anfonwyd arolwg atynt a gyhoeddwyd gan dîm y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae. Gofynnodd arolwg pellach (a roddwyd i ddarparwyr yng ngwanwyn 2022) am ragor o wybodaeth am effaith COVID-19. Mae gwybodaeth yn ymwneud â galw wedi'i chasglu drwy arolwg rhieni a gynhaliwyd yn genedlaethol yn ystod hydref 2021, ac mae hefyd yn deillio o ddata poblogaeth, gwybodaeth am y farchnad fusnes leol, datblygiadau tai, ac mewn perthynas â rhaglenni cenedlaethol. Mae'r adroddiad hwn wedi'i gynhyrchu gan ystyried "Canllawiau Deddf Gofal Plant" Llywodraeth Cymru a'r canllawiau atodol a gyhoeddwyd yn ystod 2021. Bydd y cynllun gweithredu sy'n cyd-fynd ag ef yn ceisio mynd i'r afael ag unrhyw fylchau a nodir yn y sector gofal plant yn lleol a bydd yr asesiad a'r cynllun gweithredu yn

cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru, ynghyd ag adroddiad cryno gweithredol, erbyn 30 Mehefin 2022. Bydd diweddariad ar y cynllun gweithredu a'r adroddiad cynnydd yn cael eu cyflwyno'n flynyddol hyd at 2027, pan fydd yr asesiad llawn nesaf yn cael ei gynnal. Mae'r wybodaeth a gynhwysir yn yr asesiad hwn a'r cynllun gweithredu yn cyflawni sawl pwrpas: mae'n cyfeirio gwaith tîm y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae wrth weithio i fynd i'r afael â bylchau; mae'n cysylltu â chynlluniau strategol allweddol eraill ac yn eu cefnogi, gan gynnwys y cynllun llesiant lleol, y cynllun corfforaethol a Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022–2032; mae hefyd yn darparu ffynhonnell o wybodaeth i ddarparwyr gofal plant neu ddarpar ddarparwyr gofal plant am gyflwr y sector yn lleol ac unrhyw gyfleoedd posibl i ehangu busnes; ac mae'n darparu gwybodaeth i rieni/gofalwyr neu bartïon eraill â diddordeb am y rôl y mae'r awdurdod lleol yn ei chwarae wrth gefnogi cynaliadwyedd ac ansawdd yn y farchnad gofal plant leol. At hynny, mae'n darparu gwybodaeth i Lywodraeth Cymru ei hystyried wrth gynllunio rhaglenni allweddol i gyflawni nodau strategol.

Er bod yr asesiad o reidrwydd yn canolbwyntio ar gyflenwad a galw ar adeg allweddol (yn yr achos hwn, haf/hydref 2021), bydd hefyd yn ystyried ffactorau sydd wedi dod i'r amlwg ers hynny, mewn perthynas â phandemig y coronafeirws a datblygiadau cenedlaethol yn rhaglenni Llywodraeth Cymru: ehangu Dechrau'n Deg i bob plentyn dwy oed, ymestyn y Cynnig Gofal Plant i rieni mewn addysg neu hyfforddiant, ac adolygu'r diwrnod a blwyddyn ysgol.

Mae data wedi'i gasglu yn ystod haf, hydref a gwanwyn 2021 a chafodd yr asesiad ei ysgrifennu ddiwedd y gwanwyn, gyda'r bwriad o fynd ag ef drwy broses lywodraethu'r awdurdod lleol rhwng mis Mehefin a mis Medi 2022. Cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus 28 diwrnod o hyd ar y asesiad drafft yn ystod Gorffennaf/Awst 2022.

Daw llawer o'r data sydd gennym i greu darlun o ddemograffeg leol o ddata'r Cyfrifiad ac, ar hyn o bryd, dim ond o Gyfrifiad 2011 y mae hwn ar gael. Bydd yr wybodaeth a ryddhawyd ar gyfer Cyfrifiad 2021 yn cael ei defnyddio ar gyfer y diweddariadau blynyddol a'r adroddiadau cynnydd. Mae'r adroddiad yn cynnwys adran ar effaith COVID-19, sy'n dal i ddatblygu ar hyn o bryd. Bydd yr adroddiad yn cynnwys diweddariad ar niferoedd lleoliadau, oherwydd yn anffodus rydym wedi gweld lleoliadau wedi cau ers casglu data'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth yn haf 2021, a bydd yn rhoi rhywfaint o sylwebaeth ar yr heriau a wynebir yn ystod y pandemig a'r heriau a ddisgwylir yn y dyfodol.

Bydd Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae yn ymgymryd â rôl fonitro, gan graffu ar gynnydd a herio cadernid y camau gweithredu hyd yma. Mae'r grŵp yn cyfarfod bob chwarter, a bydd Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant a Chynllun Gweithredu 2022 yn eitem reolaidd ar yr agenda. Darperir adroddiadau diweddaru blynyddol hefyd i Dîm Rheoli Adrannol y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Cyflwynir adroddiadau ar Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant a Chynllun Gweithredu 2022 i Bartneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae, Tîm Rheoli Adrannol y Gwasanaethau Cymdeithasol, y Tîm Arwain Corfforaethol a'r Pwyllgor Gweithredol, ac mae pob un ohonynt wedi'u cymeradwyo.

## 2) **Prif Ddatganiad**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn gwerthfawrogi pwysigrwydd gofal plant a'r effaith y mae hynny'n ei chael ar ffyniant economaidd. Mae wedi parhau i adeiladu ar ehangiad cyflym yn y sector gofal plant rhwng 2000 a 2014 i wella digonolrwydd ac ansawdd y gofal plant a gynigir i deuluoedd lleol. Mae nifer y lleoedd gofal plant wedi amrywio ychydig ers 2014 ond wedi aros yn gyson rhwng 1,000 a 1,300.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn parhau i fod yn ymrwymedig i gefnogi a gwella ansawdd mewn lleoliadau gofal plant a chwarae i sicrhau bod y sector yn cyfrannu at y flaenoriaeth strategol bod 'pob plentyn yn cael y cychwyn gorau mewn bywyd'. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn rhannu barn Llywodraeth Cymru bod darparu gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar o ansawdd uchel yn chwarae rhan bwysig wrth fynd i'r afael â thlodi a lleihau anghydraddoldebau, fel y nodir yn Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant. Mae yna lawer o dystiolaeth sy'n tanlinellu pwysigrwydd hanfodol profiadau'r blynyddoedd cynnar i ddeilliannau plant yn y dyfodol dros ystod o feysydd, gan gynnwys iechyd, addysg a ffyniant economaidd. Gall gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar o ansawdd uchel gael dylanwad cadarnhaol ar ganlyniadau i blant, ac mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent wedi ymrwymo i barhau i ymdrechu i sicrhau ansawdd a rhagoriaeth yn ein holl ddarpariaeth gofal plant ac addysg gynnar.

Ar ôl bod yn un o'r awdurdodau cyntaf yng Nghymru i gyflwyno cynllun sicrhau ansawdd, bu ymdrech barhaus i sicrhau bod y cynllun yn cael ei ddefnyddio'n briodol i adlewyrchu anghenion ac amgylcheddau lleol presennol a'i fod yn cydnabod yr arferion da diweddaraf. Ers cwblhau'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant diwethaf, mae tîm y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae, ynghyd â chydweithwyr o Dechrau'n Deg, wedi datblygu atodiad diogelu i'w ddefnyddio ochr yn ochr â'r offer asesu, gan adlewyrchu'r pwysigrwydd y mae'r cyngor yn ei roi ar leoliadau gofal plant yn cael ymarferwyr medrus i gefnogi gwaith adnabod/atal yn gynnar ac amddiffyn plant agored i niwed. Hefyd datblygwyd offer sicrhau ansawdd mewnol newydd (Rydym yn Chwarae, Dysgu a Chwarae yn y Cartref, ac Mae Ansawdd yn Bwysig) sy'n disodli'r cynllun sgoriau amgylcheddol a ddefnyddiwyd yn flaenorol; mae'r offer hyn yn cefnogi ansawdd mewn lleoliadau o bob math. Mae cydweithwyr o'r Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy, Rhaglen Drawsnewid y Blynyddoedd Cynnar, ac arweinwyr ac ymarferwyr gofal plant wedi gweithio gyda thimau Dechrau'n Deg a'r Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae i gyfrannu at ddatblygu'r offeryn diweddaraf, 'Mae Ansawdd yn Bwysig', sydd i'w gyflwyno yn ystod 2022. Mae gan dîm y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae Swyddog Gwella Ansawdd penodedig ac Arweinydd Tîm Strategaeth Gofal Plant, y mae eu rolau, wrth weithio gyda'r darparwyr i godi ansawdd, wedi sicrhau canlyniadau, gyda sgoriau ansawdd

yn gwella yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'r rolau'n ategu rolau yn Dechrau'n Deg sy'n gwneud gwaith tebyg ac mae perthynas waith agos rhwng y ddau dîm i sicrhau cysondeb cyngor, darparu hyfforddiant ar y cyd, a rhannu arferion da. Mae'r Swyddog Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae hefyd yn cefnogi'r broses hon trwy gynnig cyngor a hyfforddiant arbenigol ar chwarae. Mae grŵp cymuned ymarfer wedi'i sefydlu dros y tair blynedd diwethaf lle mae swyddogion ar draws timau yn gallu cydweithio, rhannu gwybodaeth a chynllunio hyfforddiant.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent wedi defnyddio dulliau arloesol a chreadigol i annog pobl i fanteisio ar ofal plant ac i hyrwyddo gyrfaoedd gofal plant, gan gynnwys sioeau teithiol gofal plant a chynhyrchu deunyddiau marchnata wedi'u targedu dros y blynyddoedd. Mae tîm y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae yn parhau i hyrwyddo'r sector gofal plant, gan wneud defnydd cynyddol o'r cyfryngau cymdeithasol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf i gyrraedd cynulleidfa ehangach nag sy'n bosibl trwy ddulliau mwy traddodiadol. Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn chwarae rhan annatod o fewn y tîm, gan ddarparu sesiynau allgymorth (pan ganiateir) yn swyddfeydd y Ganolfan Byd Gwaith a chlinigau cyn-geni a chefnogi amrywiaeth o ddigwyddiadau awdurdod lleol a chymunedol i hyrwyddo gofal plant a gwasanaethau eraill i deuluoedd. Mae'r angen i ddenu mwy o bobl i hyfforddiant gofal plant a chwarae wedi'i gydnabod ac rydym wedi gweithio gyda'r coleg lleol i ddatblygu cwrs rhagarweiniol ar gyfer gofal plant, 'Camau at Ofal Plant', sydd wedi'i ddarparu ers 2017. Rydym hefyd yn darparu cyrsiau chwarae rhagarweiniol yn fewnol. Mae rôl y Swyddog Datblygu Busnes Gofal Plant wedi bod yn hollbwysig yn y blynyddoedd diwethaf, gan gefnogi'r tîm gyda chaffael a datblygu gwasanaethau gofal plant a chefnogi'r sector i fod yn gynaliadwy trwy ddwy flynedd arbennig o anodd.

Mae Blaenau Gwent wedi cyflwyno Dechrau'n Deg yn llwyddiannus i 13 Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is, gan weithio gyda hyd at 1,071 o blant a'u teuluoedd bob blwyddyn a dangos effaith gadarnhaol iawn ar ganlyniadau i blant. Mae tîm y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr Dechrau'n Deg i ddatblygu a rhannu arferion da a chynnig cyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus i bawb yn y gweithlu gofal plant.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn cydnabod bod darparu gofal plant hefyd yn hynod o bwysig i rieni sy'n gweithio a rhieni dan hyfforddiant, gan roi'r cyfle iddynt fod yn economaidd weithgar a chyfrannu at ffyniant economaidd yr ardal. Mae gennym gysylltiadau da gyda chydweithwyr ym meysydd addysg, adfywio a chynllunio i sicrhau ein bod yn gweithio gyda'n gilydd i nodi a, lle bo'n briodol, cefnogi/herio unrhyw ddatblygiadau a allai gael effaith ar anghenion gofal plant yn lleol.

## 3) Gweithio mewn Partneriaeth ac Ymgynghori

**Partneriaid Cwlwm**

Mae gan dîm y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae berthynas waith dda â'r holl sefydliadau ymbarél, gyda chynrychiolwyr o bob un yn rhan o Bartneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae i dderbyn a rhannu gwybodaeth am y sector yn gyffredinol ac i graffu ar yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant ac adroddiadau diweddaru a chynlluniau gweithredu blynyddol.

Anfonwyd arolwg safonol awdurdod lleol at bob sefydliad ymbarél yn hydref 2021. Ni theimlai'r un o'r sefydliadau y gallent wneud sylwadau ar ystod, ansawdd, fforddiadwyedd, hyblygrwydd nac addasrwydd y sector ym Mlaenau Gwent, yn benodol gan y byddai'n rhaid iddynt wneud hyn ar gyfer 22 awdurdod, ond roedd pob un yn gallu rhoi ymatebion mwy cyffredinol i gwestiynau am eu barn am gyflwr y farchnad a chynnig awgrymiadau gwella penodol ar gyfer grwpiau penodol, a grynhoir isod.

Nododd **NDNA Cymru** yr effaith y mae COVID-19 a mesurau amddiffynnol wedi'i chael ar incwm ar gyfer meithrinfeydd dydd a thynnodd sylw at y ffaith bod hyn wedi creu ansicrwydd ynghylch ei dyfodol. Roedd ganddi bryderon am gynaliadwyedd a recriwtio staff cymwys. Nododd fod costau staffio cynyddol yn debygol o effeithio ar y prisiau a godir ar rieni, gan arwain at bryderon ynghylch fforddiadwyedd. Awgrymwyd bod lleoliadau newydd sy'n agor ar safleoedd ysgol, a allai ddisodli lleoedd presennol mewn lleoliadau lleol eraill, yn creu baich ariannol posibl i rieni, yn enwedig i'r rheini â phlant iau, os bydd yn rhaid i feithrinfeydd dydd gynyddu ffioedd er mwyn parhau i fod yn hyfyw. O ran gwelliannau ar gyfer grwpiau allweddol, roedd ffocws cryf ar wneud yn siŵr bod teuluoedd yn ymwybodol o'r dewisiadau, y rhaglenni a'r cymorth ariannol sydd ar gael iddynt. Gwnaethpwyd pwynt ychwanegol mewn perthynas â'r angen am hyfforddiant anghenion dysgu ychwanegol (ADY) i staff o fewn y system ADY newydd.

Nododd **Blynyddoedd Cynnar Cymru** fod ganddi ystod eang o aelodau ym Mlaenau Gwent, a oedd yn cynnwys yr ystod lawn o fathau o ddarparwyr gofal plant. Nododd y gwaith yr oedd yn ei wneud i helpu lleoliadau i wella ar ôl COVID-19, a oedd yn cynnwys gwaith ar gynaliadwyedd, recriwtio, asesiadau risg ac ansawdd. Cododd bryderon ynghylch recriwtio a chadw staff a'r effaith yr oedd hyn yn ei chael ar lefelau gwasanaeth. Dywedodd Blynyddoedd Cynnar Cymru y byddai'n croesawu ehangu Dechrau'n Deg i gynorthwyo teuluoedd incwm isel. Nododd yr hoffai weld gwybodaeth a llwybrau atgyfeirio clir ar gael ynghylch cymorth i blant ag ADY. Awgrymwyd bod gwefannau a chyfryngau cymdeithasol yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth i rieni a thynnwyd sylw at yr ystod o wybodaeth sydd ar gael drwy ei sianeli ar-lein.

Amlygodd **PACEY Cymru** bryderon ynghylch y gostyngiad cyffredinol yn nifer y gwarchodwyr plant ledled Cymru a thynnodd sylw at ddau ddatgofrestriad yn ystod dau chwarter cyntaf 2021/22 ym Mlaenau Gwent, gyda dim ond un cofrestriad newydd. Mae PACEY Cymru wedi bod yn canolbwyntio ei gwaith ar hyrwyddo gwarchod plant fel dewis gyrfa ac opsiwn gofal plant i deuluoedd. Nodir nad yw Blaenau Gwent yn ariannu gwarchodwyr plant i ddarparu naill ai gofal plant Dechrau'n Deg neu leoedd addysg gynnar ac awgrymir y byddai hyn o fudd i deuluoedd incwm isel, gan sicrhau cyfle cyfartal ar draws ardaloedd awdurdodau lleol a chanlyniadau gwell i blant drwy barhad gofal. Amlinellwyd y gwaith a wnaed gydag amrywiol sefydliadau cyflogaeth. Amlygwyd cyflwyniad y system ADY newydd fel datblygiad arwyddocaol a mynegwyd dymuniad i ddarganfod mwy am weithrediad ar lefel leol. Nodwyd hefyd y cyfle a manteision posibl i deuluoedd â phlant ag anableddau ddefnyddio nanis cymeradwy. Codwyd hyblygrwydd gwarchodwyr plant i gefnogi teuluoedd sy'n gweithio gydag oriau/patrymau gwaith annodweddiadol ar gyfer ystod oedran eang o blant. Yn olaf, gwnaed pwynt mewn perthynas â'r cyfyngiadau a osodir gan adrannau cynllunio ar nifer y plant y gall gwarchodwr plant ofalu amdanynt cyn bod angen caniatâd cynllunio a'r broses a'r costau sy'n gysylltiedig â gwneud cais am y caniatâd perthnasol.

Nododd **Clybiau Plant Cymru** ddiffyg darpariaeth gofal plant y tu allan i oriau ysgol ym Mlaenau Gwent, gyda nifer sylweddol o leoedd yn cael eu darparu drwy feithrinfeydd dydd, yn hytrach na chlybiau pwrpasol, gyda goblygiadau o ran y ffioedd a godir. Codwyd hefyd yr angen i ddatblygu gofal cyfrwng Cymraeg y tu allan i oriau ysgol, yn ogystal â'r angen i archwilio'r galw am ofal plant mewn ysgolion nad ydynt yn cael eu gwasanaethu ar hyn o bryd gan wasanaethau y tu allan i oriau ysgol. Mae Clybiau Plant Cymru yn awgrymu bod angen gwneud mwy i annog mwy o hyblygrwydd mewn gwasanaethau i ddiwallu anghenion rhieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol (gan nodi bod y math hwn o waith yn aml yn gysylltiedig â gwaith â chyflog isel). Mae'n nodi manteision cofrestru lleoliadau, er mwyn galluogi teuluoedd i ddefnyddio cynlluniau ariannu'r llywodraeth, ac mae hefyd yn awgrymu y dylid ehangu'r cynlluniau presennol (e.e. Dechrau'n Deg, y Cynnig Gofal Plant) i gynyddu cymhwystra. Amlygwyd yr angen i gefnogi lleoliadau i fod yn gynhwysol ac yn hygyrch fel y gellir gofalu am blant ag anghenion cymhleth. Mae cynaliadwyedd yn bryder mawr, ac awgrymir bod sefydliadau yn ystyried yn ofalus codi taliadau rhent a hefyd bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i effaith mentrau fel Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf, Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae a gwersylloedd hyfforddi ar ddarparwyr cofrestredig. Nodwyd yr angen am gydweithio agos rhwng y sector gofal plant ac addysg, gan nodi dewis rhieni ar gyfer gofal plant ar y safle. Nodwyd problemau cyffredinol a brofwyd weithiau gan leoliadau mewn ysgolion fel rhwystr. Amlygwyd materion yn ymwneud â recriwtio a chadw hefyd a galwyd am weithredu ar lefel leol a chenedlaethol, a gwelwyd cydnabod statws proffesiynol y gweithlu fel rhan o hyn.

Mae **Mudiad Meithrin** yn nodi diffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg ym Mlaenau Gwent a'r awydd i bob plentyn ym mhob rhan o Gymru gael mynediad i chwarae, dysgu a thyfu trwy gyfrwng y Gymraeg. Amlygwyd yr angen i brofi trochi llawn yn y Gymraeg i gael y canlyniadau gorau. Gwnaethpwyd cynnig i weithio gyda'r awdurdod lleol i sefydlu sesiynau cylch chwarae trochi Cymraeg yn ei leoliadau (yn dilyn cynllun peilot

llwyddiannus). Soniwyd am hyrwyddo manteision gofal plant ac addysg cyfrwng Cymraeg, ynghyd â sicrhau bod teuluoedd cymwys yn manteisio ar yr hyn a gynigir iddynt gan Dechrau'n Deg. Yr uchelgais ar gyfer mynediad i ofal plant cyfrwng Cymraeg i blant ag anableddau oedd iddo fod yn hawdd ac yn ddidrafferth. Roedd sicrhau mynediad i wybodaeth am opsiynau gofal plant a'r Cynnig Gofal Plant yn angenrheidiol i deuluoedd sy'n gweithio. Awgrymwyd bod darparwyr yn ceisio ymestyn eu horiau i gyd-fynd ag anghenion rhieni a bod angen recriwtio gwarchodwyr plant Cymraeg eu hiaith. Gwnaed nifer o argymhellion mewn perthynas â gwelliannau i'r wybodaeth sydd ar wefan yr awdurdod lleol.

**Ysgolion**

Anfonwyd arolwg i bob un o'r 21 ysgol gynradd ym Mlaenau Gwent ond prin iawn oedd yr ymateb, gyda dim ond tri arolwg yn cael eu dychwelyd. Roedd gan bob un o'r ysgolion hynny leoliadau gofal plant ar y safle ac roeddent yn teimlo bod hyn yn fuddiol ac roedd pob un yn ymwybodol o wasanaethau gofal plant eraill sy'n gweithredu'n lleol. Roedd un pennaeth am gael mwy o wybodaeth am y Cynnig Gofal Plant ac roedd dau bennaeth yn ansicr a oedd y Cynnig Gofal Plant o fudd i rieni a oedd yn gweithio. Roedd barn gymysg ar ddigonolrwydd gofal plant lleol a nodwyd yr anhawster gyda chyfraddau manteisio / cynaliadwyedd / recriwtio ar gyfer clybiau ar ôl yr ysgol. Yn ogystal â darparwyr gofal plant cofrestredig ar y safle, roedd un ysgol yn cynnig lle i grŵp rhieni a phlant bach.

Mae gan bob ysgol ym Mlaenau Gwent ddarpariaeth feithrin ac mae pob un yn cynnig clwb brecwast am ddim. Yn fras, mae cefnogaeth dda gan ysgolion ar gyfer darpariaeth gofal plant leol, ac mae gan 11 o'r 21 ysgol gynradd ddarpariaeth gofal plant ar y safle. Codwyd pryderon gyda'r Adran Addysg yn ystod 2021 ynglŷn â mwy o ysgolion yn dechrau cynnig lleoedd meithrin amser llawn y Cyfnod Sylfaen a'r effaith y byddai hyn yn ei chael ar ddarparwyr gofal plant lleol, ac mae'r sefyllfa honno'n cael ei monitro.

**Cyflogwyr a Sefydliadau Cyflogaeth**

Rhannwyd arolygon gyda chyflogwyr a sefydliadau cyflogaeth trwy Fforwm Amlasiantaeth Blaenau Gwent. Yn anffodus, dim ond un ymateb a ddarparwyd.

Mae'r Swyddog Datblygu Busnes Gofal Plant yn eistedd ar y fforwm ac yn rhannu gwybodaeth berthnasol yn rheolaidd gyda thîm y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae ynghylch datblygiadau cyflogaeth a hyfforddiant a drafodwyd yn y fforwm. Mae ein cynlluniau o ran hyfforddiant gofal plant, ehangu, cyfleoedd tendro a diweddariadau ar y Cynnig Gofal Plant hefyd yn cael eu bwydo i'r grŵp hwn.

Rhoddwyd y gorau i waith allgymorth uniongyrchol drwy'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd gyda'r Ganolfan Byd Gwaith yn ystod COVID-19, ond mae wedi'i ailddechrau o fis Ebrill 2022. Yn flaenorol, mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd wedi cyfarfod ag unigolion a

grwpiau o geiswyr gwaith i gefnogi gydag arweiniad ynghylch gofal plant, ffynonellau cyllid a gyrfaoedd gofal plant. Y bwriad yw y bydd y gweithgarwch hwn yn ailddechrau ac yn cynnig mewnwelediad ychwanegol i'r rhwystrau a wynebir gan rieni sy'n chwilio am waith.

**Bwrdd Diogelu Lleol**

Mae swyddogion tîm y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae wedi cael hyfforddiant drwy Fwrdd Diogelu Gwent i'w galluogi i gyflwyno cwrs Cyflwyniad i Ddiogelu i Blant ac Oedolion i ymarferwyr gofal plant a chwarae ym Mlaenau Gwent. Maent hefyd yn cael y cyfle i fynd i sesiynau cyfnewid gwybodaeth a digwyddiadau arfer da. Mae cysylltiadau cryf gyda'r Rheolwr Diogelu yn y Gwasanaethau Plant, sydd wedi mynychu cyfarfodydd y Rhwydwaith Gofal Plant i ddarparu gwybodaeth i ymarferwyr, a'r Rheolwr Diogelu mewn Addysg, sydd wedi cefnogi'r timau i ddatblygu a sicrhau ansawdd ein hofferyn asesu diogelu mewnol.

**Plant**

Targedwyd plant sy'n mynychu darpariaeth clybiau ar ôl yr ysgol ac Uwch-Gyngor yr ysgol yn benodol i gwblhau arolwg ynghylch eu barn ar ofal plant. Rhannwyd yr arolwg yn ehangach hefyd ar y cyfryngau cymdeithasol, ac anogwyd rhieni i ofyn i'w plentyn gymryd rhan. Er gwaethaf yr ymdrechion gorau, dim ond naw o blant a gwblhaodd yr arolwg. Cynullwyd grŵp ffocws i ymgynghori â phlant sy'n derbyn gofal a'u gofalwyr, ond dim ond un gofalwr a dau o blant a fynychodd, allan o wyth teulu a wahoddwyd. Yn anffodus, nid oedd ganddynt unrhyw brofiad o ofal plant i rannu eu barn ar hynny, ond roeddent yn gallu rhannu safbwyntiau ar sut yr oeddent yn chwarae sydd wedi'u hymgorffori yn yr asesiad o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae.

Roedd pedwar o'r plant yn defnyddio gofal plant cofrestredig naill ai ar ôl yr ysgol neu yn ystod y gwyliau, roedd tri yn derbyn gofal gan neiniau a theidiau, ac roedd un yn derbyn gofal gan y rhiant/gwarcheidwad yn unig. Dywedodd pedwar o'r plant y byddent yn mynychu clwb ar ôl yr ysgol yn yr ysgol gyfun, ond roedd pob un o dan wyth oed. Teimlai chwech o'r wyth nad oedd digon i'w wneud yn ystod y gwyliau.

Pan ofynnwyd iddynt sut yr hoffent dreulio eu gwyliau, dywedodd y plant y canlynol wrthym:

'Mynd i leoedd braf gyda fy ffrindiau'

'Cymdeithasu gyda ffrindiau'

'Ar ddiwrnodau allan'

'Chwaraeon – nofio, gymnasteg, pêl-droed, carate, sesiwn ddringo, teithiau dydd, teithiau cerdded. Mwynheais yn fawr y sesiynau rhad ac am ddim a gynhaliwyd yn ystod gwyliau'r haf diwethaf'

**'Gyda theulu a ffrindiau yn mynd i leoedd sy'n hwyl ac o ddiddordeb'**

'Clwb ieuenctid a TikTok'    **'Chwarae tu allan'**

'Mwynheais yn fawr y sesiynau rhad ac am ddim a gynhaliwyd yn ystod gwyliau'r haf diwethaf, yn enwedig y sesiynau crefft ymladd, Canolfan Eden a nofio'

**Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg**

Mae cysylltiadau clir a chryf rhwng tîm y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae a'r Adran Addysg. Mae Rheolwr y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae yn eistedd ar y Fforwm Addysg Gymraeg ac amrywiol is-grwpiau o'r fforwm hwnnw.

Mae ymrwymiad cryf yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022–2032 ar gryfhau'r Gymraeg mewn addysg ac yn y blynyddoedd cynnar ym Mlaenau Gwent. Mae'r camau gweithredu a nodwyd, mewn perthynas â gofal plant, yn cynnwys:

- Cynyddu'r lleoedd gofal plant a blynyddoedd cynnar presennol (sector cyfrwng Cymraeg) trwy greu o leiaf ddau leoliad er mwyn bwydo darpariaeth addysg statudol cyfrwng Cymraeg a'r ddarpariaeth feithrin mewn ysgolion
- Datblygu strategaeth hyrwyddo ac ymgysylltu effeithiol sy'n amlygu manteision bod yn ddwyieithog, yn chwalu mythau, ac yn creu cyfleoedd i gynyddu cyfranogiad
- Ymrwymo i gynllun datblygu'r gweithlu mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg a Choleg Gwent, ynghyd â phartneriaid allweddol eraill

Mae dogfen y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn nodi cyfraniad y sector gofal plant yn y blynyddoedd diwethaf i Ddeilliant 1, 'Mwy o blant meithrin / tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg'. Mae'n cynnwys:

- Datblygiadau eisoes ar y gweill i ehangu nifer y lleoedd gofal plant sydd ar gael yn Gymraeg yn ardaloedd Ebwy Fawr a Sirhywi
- Cymeradwyaeth i leoliad cyfrwng Cymraeg yn Ne Ebwy Fach ddod yn ddarparwr addysg gynnar cofrestredig i ateb pryderon rhieni yn y dalgylch hwnnw ynghylch plant tair oed yn defnyddio cludiant ysgol
- Gwaith a wnaed gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i hyrwyddo adnoddau Cymraeg yn barhaus
- Mae Mudiad Meithrin wedi agor cylch Ti a Fi newydd yn Sirhywi ac mae cylch meithrin wedi ei gofrestru, er nad yw wedi agor eto oherwydd problemau recriwtio
- Mae meithrinfa ddydd cyfrwng Saesneg yn ardal Ebwy Fawr wedi treialu cynnal sesiynau cylch meithrin dyddiol, gyda chefnogaeth Croesi'r Bont

- Llwyddiant rhaglen Cymraeg i Blant

Bydd Fforwm y Gymraeg mewn Addysg Blaenau Gwent yn parhau i fwrw ymlaen ag ehangu addysg a gofal plant cyfrwng Cymraeg ym Mlaenau Gwent. Mae'r fforwm yn rhagweithiol iawn ac mae ganddo gynrychiolaeth gref o randdeiliaid allweddol o faes y blynyddoedd cynnar hyd at aelodau ym maes addysg i oedolion.

**Asesiad Llesiant Lleol**

Mae Asesiad Llesiant Lleol Gwent wedi'i gyhoeddi'n ddiweddar. Yn sail i hwnnw mae'r asesiadau llesiant ar gyfer pob un o'r pedair ardal cynllunio cymunedol ym Mlaenau Gwent, ynghyd â'r deunaw ar gyfer pob ardal cynllunio cymunedol yn awdurdodau lleol eraill Gwent. Ceir y gydnabyddiaeth ganlynol yn yr asesiad: *'Nid gwasanaeth i rieni sy'n gweithio yn unig yw gofal plant; mae'n wasanaeth gwerthfawr i blant hefyd. Mae ymchwil yn dangos y gall gofal plant ddarparu buddion uniongyrchol a hirdymor i blant o'r cefndiroedd tlotaf os ydynt yn cael darpariaeth o ansawdd uchel yn eu blynyddoedd cynnar, gan wella rhagolygon cenedlaethau'r dyfodol.'*

Mae'r asesiad yn nodi'r effaith a gaiff tlodi ar ein poblogaeth leol ac, ar 45%, Blaenau Gwent sydd â'r gyfran fwyaf o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn yr 20% mwyaf difreintiedig o'r ardaloedd hyn yng Nghymru, fel y'u diffinnir gan Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Mae'r asesiadau'n dangos bod ystod resymol o fathau o ddarpariaeth ar draws y rhan fwyaf o ardaloedd cynllunio cymunedol. Fodd bynnag, mae gofal plant cyfrwng Cymraeg a darpariaeth ar gyfer plant ag anghenion arbennig ac addysgol ac anableddau yn gyffredinol isel ledled Gwent. Bod yn rhiant aros gartref neu dderbyn cymorth gan deulu neu ffrindiau sy'n gofalu am blant oedd y rhesymau mwyaf cyffredin pam nad oedd rhieni yng Ngwent yn defnyddio gofal plant ffurfiol.

O ran y sector gofal plant ac addysg gynnar, mae'r asesiad yn nodi'r canlynol:

- Mae'r coronafeirws wedi cael effaith aflonyddgar ar addysg. Mae presenoldeb yn yr ysgol wedi'i effeithio ac wedi arwain at gyfnodau o ddysgu o bell i ddisgyblion. Nid ydym yn gwybod eto beth fydd yr effaith hirdymor ar ddysgu.
- Mae'n amlwg bod angen i blant a phobl ifanc gael y dechrau gorau mewn bywyd a gwyddom fod modd atal llawer o'r anghydraddoldeb a'r amgylchiadau bywyd gwael a brofir yn ein cymunedau neu y gellir lleihau eu heffaith.
- Gall cost ac argaeledd gofal plant fod yn rhwystr sy'n atal rhieni sy'n gweithio rhag gweithio ac mae Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant yn dweud y canlynol wrthym:
    - Mae cost gofal plant yn rhwystr i lawer o deuluoedd ledled Gwent

- Mae angen amseroedd agor mwy hyblyg / trefniadau gofal plant cofleidiol i gynorthwyo rhieni ar batrymau shifft afreolaidd
- Mae'r ddau ffactor hyn yn cyfrannu at gynnydd mewn anweithgarwch economaidd

## 4) Poblogaeth


Lleolir Blaenau Gwent yn ardal Blaenau'r Cymoedd yn Ne-ddwyrain Cymru. Mae'n un o'r awdurdodau lleol lleiaf yng Nghymru, o ran ardal ddaearyddol a maint poblogaeth. Mae rhywfaint o'r data sydd ei angen ar gyfer yr asesiad hwn yn dibynnu ar wybodaeth cyfrifiad a gesglir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Cynhaliwyd y cyfrifiad diwethaf yn 2021, ond nid yw'r canlyniadau wedi'u cyhoeddi eto, felly daw rhywfaint o'r data o gyfrifiad 2011. Felly, mae'n bosibl bod rhywfaint o'r wybodaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi'r asesiad hwn braidd yn hen ffasiwn erbyn hyn a bydd angen ei diweddaru ar gyfer yr adroddiad cynnydd ar yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant yn 2022/23 a'r cynllun gweithredu wedi'i ddiweddaru.

Mae ystadegau poblogaeth yn dangos bod poblogaeth Blaenau Gwent wedi bod ar drai ers sawl degawd, er bod cyfradd y gostyngiad wedi gostwng yn y 30 mlynedd diwethaf. Yr amcangyfrif poblogaeth diweddaraf ar gyfer 2022 yw 69,548. Mae rhagamcanion poblogaeth yn dangos y bydd gostyngiad parhaus yn y boblogaeth hyd at 2031, er y bydd yn gymharol fach (amcangyfrif o 0.7%). Fodd bynnag, mae'r amcangyfrifon hefyd yn nodi y bydd gostyngiad mwy nodedig o 7.9% yn y rhai 15 oed ac iau.


Mae data genedigaethau byw ar gyfer y pedair blynedd diwethaf (gweler isod) yn dangos cyfradd genedigaethau ostyngol, a fyddai'n ymddangos yn gyson â rhagamcanion poblogaeth.

| Blwyddyn | Nifer y gyfradd genedigaethau byw |
|---|---|
| 2020/21 | 623 |
| 2019/20 | 695 |
| 2018/19 | 775 |
| 2017/18 | 749 |

Mae amcangyfrif poblogaeth 2020 yn nodi nifer y plant yn ôl grŵp oedran yn 2020.




O'u gwahanu i ardaloedd cynllunio cymunedol, mae'r ffigurau'n dangos niferoedd uwch o blant yn byw yn Ebwy Fawr (4,719), ond niferoedd tebyg yn Sirhywi (3,100), Gogledd Ebwy Fach (3,208) a De Ebwy Fach (3,248).




Dangosodd data cyfrifiad 2011 fod poblogaeth Blaenau Gwent o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig ychydig yn llai na 1,900. Mae hyn yn cyfateb i 2.6% o'r boblogaeth gyfan ac yn llawer is na chyfartaledd Cymru o 6.7%. Yn 2001, roedd canran y bobl ym Mlaenau Gwent o leiafrifoedd ethnig yn 1.8%, sef tua 1,300 o bobl, sy'n dangos cynnydd nodedig o 2001 i 2011. Serch hynny, yn 2011 roedd gan Flaenau Gwent un o'r lefelau isaf o bobl o leiafrifoedd ethnig yng Nghymru a Lloegr o hyd.

Ar 7.8%, roedd nifer y siaradwyr Cymraeg yn is ym Mlaenau Gwent yn 2011 na rhanbarth Gwent ac yn sylweddol is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan o 19%. Mae'r ffigur hwn yn dangos gostyngiad o 2001, pan oedd y ganran yn 9.5%, ac roedd yn cyd-fynd â'r gostyngiad a welwyd ar draws Gwent a Chymru gyfan.

Ar hyn o bryd, mae gan y Mynegai Anabledd ym Mlaenau Gwent 240 o blant / pobl ifanc (161 o blant rhwng 0 ac 17 oed a 70 o bobl ifanc eraill rhwng 18 a 24 oed). Fel cyfran o gyfanswm y boblogaeth ar gyfer y grwpiau oedran hynny, mae hynny'n 1.3%. Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod bod gwahanol ddiffiniadau o anabledd a throthwyon i gael mynediad at wasanaethau, a allai olygu nad yw pob plentyn yn cael ei gyfrif.

Ar hyn o bryd, mae gan yr awdurdod lleol 197 o blant sy’n derbyn gofal, wedi’u dadansoddi o ran oedran fel a ganlyn:

| Ystod Oedran | Niferoedd Plant sy’n Derbyn Gofal |
|---|---|
| O dan 1 oed | 8 |
| 1 – 4 oed | 33 |
| 5 – 9 oed | 37 |
| 10 – 15 oed | 77 |
| 16 – 18 oed | 42 |

Mae’r tabl a ganlyn yn dangos niferoedd y plant sy’n byw ar aelwydydd heb waith yn 2018. Mae’n dangos bod cyfran uwch, gyda bron i un o bob pump o blant yn byw ar aelwydydd heb waith ym Mlaenau Gwent, sy’n uwch na chyfartaledd Cymru ac yn sylweddol uwch na chyfartaledd y DU.

| Plant sy’n byw ar aelwydydd heb waith / cymysg neu sy’n gweithio yn ôl nifer a chanran yr aelwydydd | Aelwydydd sy’n gweithio (dim un o oedran gweithio mewn cyflogaeth) % | Aelwydydd cymysg (rhai o oedran gweithio mewn cyflogaeth) % | Aelwydydd sy’n gweithio (pawb o oedran gweithio mewn cyflogaeth) % |
|---|---|---|---|
| Y Deyrnas Unedig | 14.5% | 27.9% | 57.6% |
| Cymru | 17.2% | 27.4% | 55.3% |
| Blaenau Gwent | 19.9% | 25.5% | 54.6% |

## 5) Cyflenwad

**Trosolwg – Mathau, Gwasanaethau a Lleoedd Gofal Plant**

Mae'r wybodaeth hon yn adlewyrchu data a gasglwyd yn ystod haf 2021 drwy broses y Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth i gyflwyno ciplun o wasanaethau gofal plant ar adeg benodol. Bydd diweddariadau lle bo'n briodol yn cael eu cynnwys yn y naratif ar gyfer pob math o ofal plant gan fod amgylchiadau wedi newid i rai darparwyr ers casglu'r data.

| Math o Ofal Plant | Gwasanaethau Gofal Plant | Cofrestredig | Anghofrestredig |
|---|---|---|---|
| Gwarchodwr Plant | Cyfanswm Gwarchodwyr Plant | 32 | 0 |
| | Gofal Dydd Llawn | 31 | 0 |
| | Gofal Hanner Dydd | 25 | 0 |
| | Cyn yr Ysgol | 28 | 0 |
| | Ar Ôl yr Ysgol | 28 | 0 |
| | Cofleidiol | 24 | 0 |
| | Gwyliau | 32 | 0 |
| | Arall | 0 | 0 |
| Gofal Dydd Llawn | Cyfanswm Gofal Dydd Llawn * | 16 | 0 |
| | Gofal Dydd Llawn | 11 | 0 |
| | Gofal Hanner Dydd | 14 | 0 |
| | Cyn yr Ysgol | 5 | 0 |
| | Ar Ôl yr Ysgol | 8 | 0 |
| | Cofleidiol | 13 | 0 |
| | Cinio | 7 | 0 |
| | Gwyliau | 14 | 0 |
| | Arall | 0 | 0 |
| Gofal Dydd Sesiynol | Cyfanswm Gofal Sesiynol | 6 | 0 |
| | Sesiwn y Bore | 6 | 0 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Sesiwn y Prynhawn | 5 | 0 |
| | Cofleidiol | 0 | 0 |
| | Cinio | 2 | 0 |
| | Gwyliau | 2 | 0 |
| | Arall | 0 | 0 |
| Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol | Cyfanswm Darpariaeth y Tu Allan i Oriau Ysgol | 3 | 0 |
| | Cyn yr Ysgol | 0 | 0 |
| | Ar Ôl yr Ysgol | 2 | 0 |
| | Clwb Gwyliau | 1 | 0 |
| Nani | Cyfanswm Nanis | 0 | 0 |
| Darpariaeth Chwarae | Cyfanswm Darpariaeth Chwarae | 0 | 12 |
| | Tîm Chwarae BG | 0 | 6 |
| | Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf | 0 | 6 |

Nid oedd unrhyw ddarparwyr gofal plant anghofrestredig ar yr adeg y casglwyd y data; dim ond darpariaeth chwarae oedd heb ei chofrestru. Mae un clwb ar ôl yr ysgol nad oedd wedi'i gofrestru o'r blaen wedi cau, a phenderfynodd un clwb arall sydd heb ei gofrestru beidio ag ailagor yn dilyn y pandemig.

Ar adeg y cofnodi, nid oedd yr un nani ym Mlaenau Gwent yr oeddem yn ymwybodol ohoni; fodd bynnag, mae un unigolyn wedi cofrestru drwy'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol yn ystod gwanwyn 2022.

Nid oedd darpariaeth crèche ym Mlaenau Gwent.

Mae'r tabl isod yn dangos bod ystod o wasanaethau gofal plant a chwarae ar gael ar draws Blaenau Gwent. Er bod nifer y darparwyr sy'n cynnig gofal plant sesiynol a thu allan i oriau ysgol yn ymddangos yn isel, mae'n bwysig nodi bod y rhan fwyaf o ddarparwyr sydd wedi cofrestru i ddarparu gofal dydd llawn yn cynnig lleoedd sesiynol, ar ôl yr ysgol a gwyliau. Yn ogystal, mae pob gwarchodwr plant yn cynnig o leiaf rhywfaint o ofal gwyliau.

| **Math o Ofal Plant** | **Nifer y Darparwyr yn ôl Ardal Cynllunio Cymunedol** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Sirhywi** | **Ebwy Fawr** | **Gogledd Ebwy Fach** | **De Ebwy Fach** | **Cyfanswm** |
| **Gwarchodwyr Plant** | **4** | **7** | **10** | **11** | **32** |
| **Gofal Dydd Llawn** | **4** | **7** | **2** | **3** | **16** |
| **Gofal Dydd Sesiynol** | **2** | **1** | **1** | **2** | **6** |
| **Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol** | **0** | **0** | **2** | **0** | **2** |
| **Darpariaeth Chwarae** | **2** | **4** | **3** | **3** | **12** |

Mae'n werth nodi, er bod niferoedd y gwarchodwyr plant sydd wedi'u cofrestru yn Sirhywi ac Ebwy Fawr yn sylweddol is na'r niferoedd yng Ngogledd Ebwy Fach a De Ebwy Fach, mae'r ddwy ardal flaenorol yn cael eu gwasanaethu'n dda o ran darpariaeth gofal dydd llawn.

**<u>Lleoedd Cofrestredig Darpariaeth Amser Tymor</u>**

| Math o Ofal Plant | Lleoedd Cofrestredig Amser Tymor | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Uchafswm Lleoedd | Nifer y Plant sy'n Defnyddio'r Gwasanaeth | Cyfanswm Lleoedd ar Draws Pob Gwasanaeth | Nifer y Lleoedd Gwag ar Draws Pob Gwasanaeth | Rhestr Aros |
| Gwarchodwr Plant | 228 | 239 | 1226 | 167 | 7 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gofal Dydd Llawn | 621 | 809 | 2678 | 416 | 49 |
| Gofal Dydd Sesiynol | 260 | 229 | 229 | 128 | 0 #1 |
| Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol | 110 | 130 | 110 | 40 #2 | 0 |

#1 Dim ond un darparwr a gofnododd restr aros, a hynny ar gyfer 70, y tybir ei fod yn gamgymeriad

#2 Nododd un darparwr 200 o leoedd gwag ond dim ond ar gyfer 40 o leoedd yr oedd wedi'u cofrestru (roedd ar gau ar adeg casglu'r data)

Cyfanswm y lleoedd cofrestredig ar draws yr holl ddarpariaeth yw 1,219. I gymharu ag Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant blaenorol, lle cafodd lleoedd gofal dydd sesiynol eu cyfrif ddwywaith (pan oedd dwy sesiwn yn cael eu darparu ar yr un diwrnod), mae hynny'n dod i gyfanswm o 1,335 o leoedd.

Ym mron pob math o ofal plant, mae mwy o blant ar y llyfrau nag sydd o leoedd cofrestredig. Mae hyn oherwydd mai rhan amser yw'r patrwm presenoldeb mwyaf cyffredin o bell ffordd, sy'n golygu weithiau bod un lle cofrestredig wedi'i wasgaru ar draws dau blentyn neu fwy.

**<u>Darpariaeth Anghofrestredig yn ystod y Tymor</u>**

Nid oes darpariaeth anghofrestredig yn ystod y tymor ar hyn o bryd. Mae clybiau ar ôl yr ysgol a arferai redeg fel darpariaeth anghofrestredig wedi cael eu colli oherwydd Covid.

**<u>Lleoedd Cofrestredig – Gwyliau Ysgol</u>**

| Math o Ofal Plant | Lleoedd Cofrestredig Gwyliau Ysgol | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Uchafswm Lleoedd | Nifer y Plant sy'n Defnyddio'r Gwasanaeth | Nifer y Lleoedd Gwag | Rhestr Aros |
| Gwarchodwr Plant | 228 | Ddim yn Hysbys | Ddim yn Hysbys | 6 |
| Gofal Dydd Llawn | 496 | Ddim yn Hysbys | Ddim yn Hysbys | 0 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gofal Dydd Sesiynol | 44 | Ddim yn Hysbys | Ddim yn Hysbys | 0 |
| Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol | 70 | Ddim yn Hysbys | Ddim yn Hysbys | 0 |

Mae nifer y lleoedd yn sylweddol is, sef 836.

Nid yw'r data a ddarparwyd trwy'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth yn gwahaniaethu rhwng plant sy'n mynychu neu gyfraddau lleoedd gwag ar gyfer gofal gwyliau a gofal yn ystod y tymor.

**Darpariaeth Anghofrestredig – Gwyliau Ysgol**

Mae darpariaeth anghofrestredig yn cynnwys sesiynau chwarae mynediad agored a Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf. Mae darpariaeth chwarae mynediad agored yn rhedeg ym Mlaenau Gwent dros dri diwrnod yr wythnos am bum wythnos o wyliau'r haf ac yn ystod hanner tymor mis Hydref a mis Chwefror. Nid oes cyfyngiad penodol ar y lleoedd a gynigir, gan y bydd hyn yn dibynnu ar nifer y staff a gwirfoddolwyr sydd ar gael ar unrhyw ddiwrnod i gefnogi'r sesiynau. Mae sesiynau fel arfer yn rhedeg mewn chwe safle bob wythnos am ddwy awr bob tro.

Cynhaliwyd Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf mewn chwe ysgol yn haf 2021, gan gynnig 280 o leoedd ar draws pythefnos o ddarpariaeth. Mae'r ddarpariaeth wedi'i thargedu at y plant mwyaf anghenus gan yr ysgolion felly nid yw o reidrwydd yn opsiwn i bob rhiant sy'n gweithio sy'n ceisio gofal plant yn ystod y gwyliau.

**Gwarchodwyr Plant**

Ar adeg casglu'r data, roedd gan Flaenau Gwent 32 o warchodwyr plant yn cynnig 228 o leoedd cofrestredig dros 1,120 o wahanol fathau o ddarpariaeth (diwrnodau llawn, hanner diwrnodau, cyn yr ysgol, ar ôl yr ysgol, gwyliau ysgol). Mae hyn yn ostyngiad o bedwar gwarchodwr plant ers 2017 ac, yn anffodus, bu dau ddatgofrestriad arall ers casglu'r data yn haf 2021.

Mae'r tabl isod yn dangos y gwasanaethau a gynigir gan warchodwyr plant, a'u gwasgariad daearyddol, o ran categorïau iaith:

| Ardal | Cyfanswm | Cyfrwng Saesneg | Cyfrwng Saesneg a Chymraeg |
|---|---|---|---|
| Sirhywi | 4 | 4 | 0 |
| Ebwy Fawr | 7 | 3 | 4 |
| Gogledd Ebwy Fach | 10 | 7 | 3 |
| De Ebwy Fach | 11 | 9 | 2 |
| Cyfanswm | 32 | 23 | 9 |

Mae bron pob gwarchodwr plant yn cynnig ystod dda o wasanaethau, gyda phresenoldeb da ym mhob ardal cynllunio cymunedol:

| Gwasanaethau | Sirhywi | Ebwy Fawr | Gogledd Ebwy Fach | De Ebwy Fach |
|---|---|---|---|---|
| Gofal Dydd Llawn | 4 | 7 | 10 | 10 |
| Hanner Diwrnod am | 3 | 6 | 8 | 8 |
| Hanner Diwrnod pm | 3 | 6 | 9 | 7 |
| Cyn yr Ysgol | 4 | 6 | 7 | 11 |
| Ar Ôl yr Ysgol | 4 | 6 | 7 | 11 |
| Gofal Gwyliau | 4 | 7 | 10 | 11 |

Mae llawer o ddewis ar gael mewn dwy ardal cynllunio cymunedol – De Ebwy Fach (un ar ddeg o warchodwyr plant) a Gogledd Ebwy Fach (deg gwarchodwr plant) – o ran nifer y gwarchodwyr plant a'r gwasanaethau sydd ar gael. Mae llai o ddewis yn Ebwy Fawr (saith gwarchodwr plant) a dewis cyfyngedig iawn yn Sirhywi, gyda dim ond pedwar darparwr wedi'u nodi. Nid oes yr un gwarchodwr plant ym Mlaenau Gwent yn cynnig gwasanaeth cyfrwng Cymraeg, er bod naw wedi'u categoreiddio fel rhai sy'n cynnig Cymraeg a Saesneg. Er bod gwarchodwyr plant yn cynnig y ddarpariaeth iaith gymysg hon ym mhob ardal arall, nid oes yr un yn Sirhywi.

Er bod y data'n dangos bod y rhan fwyaf o warchodwyr plant yn cynnig ystod o wasanaethau o ddydd Llun i ddydd Gwener a darpariaeth gynnar yn y bore i fin nos, nid oes gofal hwyr gyda'r nos / dros nos ar gael, ac nid oes unrhyw warchodwr plant yn cynnig gwasanaeth penwythnos. Mae oriau agor yn amrywio o 6am yn y bore i 6.30pm gyda'r nos ac mae darparwyr yn cynnig gwasanaethau dros 12 awr y dydd ym mhob ardal. Mae pob gwarchodwr plant yn darparu o leiaf rhywfaint o ddarpariaeth yn ystod gwyliau'r haf, ond dywedodd 24 o warchodwyr plant nad oeddent ar agor ar gyfer gwyliau'r Nadolig (neu nad oeddent wedi penderfynu eto ar yr adeg y gwnaethant gwblhau'r arolwg). Nid agorodd un darparwr yn Ne Ebwy Fach ar gyfer unrhyw un o'r gwyliau hanner tymor ac nid agorodd un gwarchodwr plant arall adeg y Pasg. Nid agorodd cyfanswm o chwe gwarchodwr plant ar gyfer hanner tymor mis Mai. Fel arall, ceir gwasanaeth da dros y rhan fwyaf o wyliau ysgol ym mhob ardal.

Roedd mwyafrif y plant (60%) a oedd yn defnyddio gwarchodwyr plant yn 2017 yn gwneud hynny'n rhan amser, ond mae hynny wedi cynyddu i 80% yn 2021. Mae presenoldeb amser llawn wedi gostwng o 34% o blant yn 2017 i 16% o blant yn 2021 ac mae'r rhai sy'n mynychu ad hoc wedi aros yn gyfran debyg (5% yn 2017 a 4% yn 2021).

Roedd gwarchodwyr plant yn gofalu am 277 o blant yn amrywio mewn oedran o dan 12 mis hyd at 11 oed ac, ar adeg yr arolwg, roeddent yn gofalu am chwe phlentyn ag anghenion ychwanegol, cyfran o ychydig dros 2%.

Mae cost fesul awr darpariaeth gwarchodwr plant yn amrywio o £4.00 yr awr i £6.00 yr awr, ond y tâl mwyaf cyffredin o bell ffordd oedd £4.50 yr awr. Wedi'i gyfrifo fel cyfartaledd o'r holl daliadau darparwyr ym mhob ardal, mae Gogledd Ebwy Fach ychydig yn ddrytach, sef £4.89 yr awr, ac Ebwy Fawr a gynhyrchodd y cyfartaledd rhataf, sef £4.37 yr awr.

Mae nifer sylweddol, ond gostyngol, o leoedd gwag ar draws y fwrdeistref ar gyfer gwasanaethau gwarchodwyr plant, gyda chyfradd lleoedd gwag o 13%, o'i chymharu â 30% yn 2017. Cofnododd saith gwarchodwr plant restr aros am leoedd gofal dydd llawn, un ar gyfer gofal prynhawn a thri ar gyfer gofal ar ôl yr ysgol. Gallai'r gyfradd lleoedd gwag ddangos bod cyflenwad yn ddigonol, er bod potensial i gynnig mwy o ddewis i rieni a gofal plant hyblyg trwy warchodwyr plant yn y ddwy ardal cynllunio cymunedol lle mae niferoedd is. Er mai dim ond pedwar gwarchodwr plant sy'n gweithredu yn Sirhywi a saith gwarchodwr plant yn gweithredu yn Ebwy Fawr, mae'r ddwy ardal hyn yn cael eu gwasanaethu'n dda gan ddarpariaeth meithrinfa ddydd. Fodd bynnag, mae potensial ar gyfer twf gan y gallai gwarchodwyr plant gynnig mwy o hyblygrwydd i rai teuluoedd. Mae'n bwysig nodi hefyd nad oes yr un o'r gwarchodwyr plant yn Sirhywi yn cynnig gwasanaeth yn Gymraeg nac

yn Saesneg a Chymraeg, felly mae bwlch posibl yn y ddarpariaeth o ran dewis iaith yn yr ardal hon. Efallai y bydd mwy o alw am hyn gan rieni gydag agoriad ysgol eginblanhigyn cyfrwng Cymraeg newydd yn Nhredegar yn 2023/24.

Mae Covid wedi bod yn her fawr i warchodwyr plant, gyda phymtheg o warchodwyr plant yn gorfod cau eu gwasanaeth dros dro o leiaf unwaith. Dim ond un gwarchodwr plant a deimlai nad oedd ganddo ddigon o gyfarpar diogelu personol yn ystod y pandemig. Dywedodd un ar bymtheg o warchodwyr plant fod llai o hyfforddiant wedi'i gynnig, ond roedd pedwar yn teimlo bod mwy wedi bod. (Efallai bod natur ar-lein yr hyfforddiant a gynigiwyd yn ystod y pandemig wedi ei gwneud yn haws i rai gael mynediad at hyfforddiant.) Roedd pedwar ar ddeg o warchodwyr plant yn ansicr o'u cynaliadwyedd yn y dyfodol, tra oedd y deunaw arall yn teimlo'n hyderus ynghylch eu cynaliadwyedd am flwyddyn arall neu fwy.

**Cryfderau a Gwendidau**

Mae gostyngiad yn niferoedd y gwarchodwyr plant ym Mlaenau Gwent yn bryder, nid yn unig oherwydd colli lleoedd gofal plant yn gyffredinol yn sgil hynny, ond hefyd oherwydd y gostyngiad yn y dewis o fathau o ofal plant sydd ar gael i rieni/gofalwyr. Weithiau gall gwarchodwyr plant gynnig hyblygrwydd nad oes ar gael i ddarparwyr mewn lleoliadau ac mae'n well gan lawer o rieni leoliad mewn cartref.

Mae rhywfaint o arwydd bod nifer y lleoedd gwag wedi lleihau ers yr asesiad llawn diwethaf, a dylai hyn gefnogi cynaliadwyedd wrth symud ymlaen. Er bod nifer sylweddol o warchodwyr plant yn ansicr o'u dyfodol yr haf diwethaf, y gobaith yw y bydd y grantiau a roddwyd i'r sector yn ail hanner 2021/22, ynghyd â'r gostyngiad yn y cyfyngiadau, yn darparu sylfaen fwy sefydlog i'w busnesau.

Mae pob un ond tri o'r gwarchodwyr plant wedi'u cofrestru i ddarparu'r Cynnig Gofal Plant, ond nid oes yr un wedi'i gomisiynu i ddarparu Dechrau'n Deg neu addysg gynnar ar hyn o bryd. Mae'n bosibl y bydd ehangu Dechrau'n Deg yn cynnig mwy o gyfleoedd i warchodwyr plant ac mae hyn yn cael ei ystyried yn weithredol ar hyn o bryd.

Roedd ymgysylltu â'r awdurdod lleol o ran y nifer sy'n dilyn hyfforddiant a phresenoldeb yn y rhwydwaith wedi gwella'n sylweddol hyd at y pandemig. Yn ystod y pandemig, rhannwyd cyfathrebiadau rheolaidd gan dîm y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae â gwarchodwyr plant a chynhaliwyd cyfarfodydd rhithwir i drafod a chynnig cymorth, gyda grantiau yn benodol.

Mae bwlch yn yr ardal ar gyfer gwasanaethau gwarchod plant y gellid eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg a byddai ehangu nifer y gwasanaethau sy'n gallu cynnig y Gymraeg a'r Saesneg yn ddymunol iawn.

Mae yna hefyd fwlch posibl ar gyfer rhieni sydd angen gofal plant ar adegau annodweddiadol (yn gynnar iawn yn y bore, yn hwyr gyda'r nos, dros nos) y gellid ei ystyried gan warchodwyr plant presennol a'r rhai sy'n ystyried dod yn warchodwr plant a allai fod eisiau chwilio am bwynt gwerthu unigryw.


**Gofal Dydd Llawn**

Mae nifer y darparwyr sydd wedi cofrestru i ddarparu gofal dydd llawn wedi cynyddu'n sylweddol, o ddeg i un ar bymtheg, ers yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant diwethaf a gynhaliwyd yn 2017. Mae'r darparwyr yn cynnwys wyth meithrinfa ddydd (agorwyd dwy feithrinfa newydd yn ystod y pandemig), dau gylch meithrin a chwe chylch chwarae, sydd rhyngddynt yn cynnig 621 o leoedd gofal plant cofrestredig gyda 3,073 o leoedd ar draws mathau o wasanaethau. Mae darparwyr diwrnod llawn ym mhob ardal cynllunio cymunedol: pedwar yn Sirhywi, saith yn Ebwy Fawr, dau yng Ngogledd Ebwy Fach, a thri yn Ne Ebwy Fach. Maent yn cynnig ystod o wasanaethau, o ofal dydd llawn i wasanaeth cofleidiol a chinio. Mae'r tabl isod yn dangos yr ystod o wasanaethau a lleoedd a gynigir gan ddarparwyr ar gyfer pob ardal cynllunio cymunedol:

| Math o Wasanaeth | Sirhywi | Ebwy Fawr | Gogledd Ebwy Fach | De Ebwy Fach |
|---|---|---|---|---|
| Gofal Dydd Llawn | 104 | 316 | 48 | 42 |
| Meithrinfa Hanner Dydd am | 129 | 284 | 48 | 81 |
| Meithrinfa Hanner Dydd pm | 110 | 284 | 48 | 81 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cylch Chwarae / Cylch Meithrin am | 0 | 48 | 43 | 69 |
| Cylch Chwarae / Cylch Meithrin pm | 0 | 48 | 43 | 42 |
| Cyn yr Ysgol | 85 | 153 | 48 | 62 |
| Ar Ôl yr Ysgol | 85 | 270 | 158 | 42 |
| Cinio | 83 | 108 | 72 | 39 |
| CYFANSWM | 596 | 1511 | 508 | 458 |


Mae nifer y lleoedd yn sylweddol uwch yn Ebwy Fawr na'r tair ardal cynllunio cymunedol arall, gyda'r ardal honno'n cael ei gwasanaethu'n arbennig o dda gan feithrinfeydd dydd, gyda phedair yn gweithredu yng Nglynebwy a'r cyffiniau. Mae nifer y lleoedd gofal diwrnod llawn / hanner diwrnod a chylch chwarae yng Ngogledd Ebwy Fach yn sylweddol is nag mewn ardaloedd eraill, gyda dim ond un darparwr yn gwasanaethu Bryn-mawr a phen uchaf Nant-y-glo.




Bu newid sylweddol mewn patrymau mynychu ers yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant diwethaf; er mai mynychu rhan-amser yw'r math mwyaf cyffredin o hyd, mae wedi cynyddu'n sylweddol o 55% i 83%. Mewn cyferbyniad, mae mynychu amser llawn wedi gostwng o 36% i 13% a mynychu ad hoc o 9% i 4%.

Ni nododd yr un o'r darparwyr meithrinfeydd dydd eu bod yn ddarparwyr cyfrwng Cymraeg; nododd un ei fod yn defnyddio Cymraeg a Saesneg, ond lleoliadau cyfrwng Saesneg yw'r saith arall. Mae un feithrinfa ddydd yn Ebwy Fawr wedi bod yn treialu darpariaeth gwasanaeth cylch meithrin o fewn ei lleoliad gyda pheth llwyddiant. Mae'r ddau gylch meithrin sy'n darparu gofal dydd llawn ar gyfer 38 o leoedd cofrestredig yn cynnig diwrnod byrrach na meithrinfeydd diwrnod llawn, sef uchafswm o chwe awr. Mae un cylch chwarae, a nodwyd yn flaenorol yn 2017 fel lleoliad cyfrwng Cymraeg, bellach yn lleoliad Cymraeg a Saesneg, a'r pum darparwr cylch chwarae arall wedi'u nodi fel lleoliadau cyfrwng Saesneg.

Mae'n nodedig mai'r blynyddoedd arwyddocaol ar gyfer darparu gwasanaethau gofal dydd llawn yw rhwng 2 a 3 oed, gyda gostyngiad yn y niferoedd o 4 oed ymlaen a neb yn eu defnyddio ar ôl 11 oed.




Nodwyd bod gan 32 o'r 731 o blant a oedd yn mynychu gofal dydd llawn anabledd neu anghenion ychwanegol, sef 4% o'r plant sy'n manteisio ar leoedd gofal plant.

Adroddodd y darparwyr fod 410 o leoedd gwag dros eu hystod o wasanaethau ym mis Gorffennaf 2021, sef 15% o gyfanswm y gwasanaethau a ddarparwyd ac sy'n cynrychioli gostyngiad yn y gyfradd lleoedd, sef 34% ar gyfer yr un cyfnod yn 2016.

Dim ond dwy ardal cynllunio cymunedol oedd â darparwyr yn adrodd am restrau aros – Sirhywi (39 o blant) ac Ebwy Fawr (wyth o blant) – i gyd yn ymwneud â gwasanaethau cyfrwng Saesneg.

Mae dau gylch meithrin yn cynnig 95 o leoedd, ar draws sesiynau bore, cinio a phrynhawn. Roedd hyd at 99 o blant yn cael lle yn haf 2021.

Mae oriau'r ddarpariaeth yn amrywio o oriau agor rhwng 7am a 9.15am ac amseroedd gorffen y sesiynau o 2.45pm i 6pm. Mae meithrinfeydd dydd fel arfer ar agor o 7.30am tan 6pm, a'r cylchoedd meithrin/chwarae yn rhedeg o 9am tan 3.30pm. Nid oes yr un darparwr gofal dydd

llawn yn cynnig amseroedd gorffen hwyr y nos neu ddarpariaeth dros y penwythnos. Mae hyd sesiynau'n amrywio o 2.5 awr hyd at 10.5 awr. Mae yna feithrinfeydd diwrnod llawn sy'n cynnig yr oriau agor hirach ym mhob un o'r ardaloedd cynllunio cymunedol.

Yn gyffredinol, mae meithrinfeydd dydd ar agor am 50/51 wythnos y flwyddyn (yn cau am wythnos neu ddwy adeg y Nadolig ond ar agor am weddill y flwyddyn). Mae'r cylchoedd meithrin a'r cylchoedd chwarae yn fwy cymysg, gyda dim ond pedwar lleoliad yn cynnig rhywfaint o ddarpariaeth gwyliau.

Roedd costau cylchoedd meithrin a chylchoedd chwarae yn amrywio o £8.50 i £15.00 y sesiwn ac roedd costau meithrinfeydd diwrnod llawn yn amrywio o £36 i £45 y diwrnod.

Cafodd Covid effaith enfawr ar ddarparwyr gofal dydd llawn, gydag 11 o'r 16 darparwr yn cau dros dro o leiaf unwaith (erbyn haf 2021). Caeodd y ddau gylch meithrin yn gynnar yn y pandemig, gan aros ar gau am bum mis, tra caeodd pum darparwr arall am gyfnod o ddau i dri mis. Teimlai pob darparwr ar ddechrau'r pandemig nad oedd ganddo fynediad at ddigon o gyfarpar diogelu personol, er bod pob un yn teimlo bod ganddo ddigon ym mis Gorffennaf 2021. Dim ond pum lleoliad ddywedodd y bu effaith ar gymarebau staffio. Roedd gan 14 o'r darparwyr yr holl staff yn cynnal profion llif unffordd wythnosol, ac roedd gan y ddau arall rai staff yn eu gwneud. Er mai dim ond deg o'r 16 darparwr oedd â staff a oedd yn gorfod ynysu erbyn haf 2021, rhagwelir bod y rhan fwyaf, os nad pob un, bellach wedi cael staff yn ynysu. Dywedodd mwyafrif y darparwyr y bu llai o hyfforddiant ar gael. Teimlai un darparwr fod diffyg TG wedi effeithio ar hyn a nododd dau fod diffyg cyflenwad staff wedi cyfrannu at hyn. Nododd wyth darparwr fod y cyfyngiadau ar gwblhau elfennau ymarferol cymwysterau hyfforddi wedi bod yn broblem. Amlygwyd diffyg argaeledd hyfforddiant addas hefyd gan wyth darparwr, ond dim ond dau a deimlai nad oedd yr hyfforddiant yr oedd ei angen arnynt ar gael o hyd ar adeg cynnal yr arolwg. Roedd 12 o'r 16 wedi llenwi eu holl leoedd yn haf 2021, dim ond un darparwr oedd yn ansicr o'i gynaliadwyedd yn y dyfodol, roedd un yn teimlo'n hyderus am chwe mis, ac roedd y gweddill yn hyderus am y flwyddyn nesaf neu fwy.

**Cryfderau a Gwendidau**

Bu cynnydd sylweddol yn y ddarpariaeth gofal dydd llawn ers yr asesiad llawn diwethaf yn 2017. Mae tri lleoliad newydd mewn tair ardal cynllunio cymunedol (Sirhywi, Ebwy Fawr a De Ebwy Fach) ac mae'r ychwanegiadau eraill wedi'u creu trwy ddarparwyr dydd sesiynol yn ailgofrestru i ddarparu gofal dydd llawn. Er eu bod yn dal i gynnig gofal sesiynol, sy'n arbennig o berthnasol i ddarparwyr Dechrau'n Deg, mae'r darparwyr hyn wedi gallu cynnig gwasanaethau cofleidiol, gan eu galluogi i gynnig y Cynnig Gofal Plant i rieni sydd angen y gwasanaeth hwnnw.

Ar ôl nodi bwlch ar gyfer meithrinfa diwrnod llawn yn Ne Ebwy Fach yn 2017, cyflwynwyd a chymeradwywyd cais am adeilad newydd fel rhan o Raglen Gyfalaf y Cynnig Gofal Plant; fodd bynnag, mae'r bwlch hwn bellach wedi'i lenwi gan ddarparwr newydd yn agor yn Llanhiledd yn 2021. Mae cynlluniau i fynd ar drywydd yr opsiwn o feithrinfa diwrnod llawn newydd yn yr ardal honno o dan y rhaglen gyfalaf wedi'u gollwng ers hynny, er mwyn peidio â disodli darpariaeth newydd, gyda chyllid yn symud i gefnogi cynlluniau eraill ym Mlaenau Gwent. Un o'r cynlluniau hynny yw ehangu hwb Dechrau'n Deg yn Swffryd, sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd. Dylid tendro cyfle i ddarparu gofal dydd llawn i blant 2–12 oed o'r hwb sydd newydd ei ehangu yn haf 2022, gan greu rhagor o leoedd gofal dydd llawn yn Ne Ebwy Fach.

Mae ystod dda o wasanaethau ar gael trwy ddarparwyr gofal dydd llawn ym mhob un o'r ardaloedd cynllunio cymunedol, ond dewis cyfyngedig i'r rhieni hynny sydd eisiau darpariaeth yn Gymraeg neu yn Gymraeg a Saesneg. Un o'r cynlluniau eraill a gymeradwywyd o dan Raglen Gyfalaf y Cynnig Gofal Plant oedd i feithrinfa diwrnod llawn cyfrwng Cymraeg gael ei hadeiladu yn ardal Ebwy Fawr, i ddiwallu'r angen am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Yn ogystal, mae sesiynau cyfrwng Cymraeg wedi eu treialu gan ddarparwr gofal dydd llawn yn ardal Ebwy Fawr, gan ddiwallu peth angen yn y cyfamser a gobeithio ychwanegu at yr ystod o ddewisiadau cyfrwng Cymraeg yn y tymor hwy. Byddai'r cyfle i ymestyn y peilot i ddarparwyr gofal dydd llawn cyfrwng Saesneg eraill ym mhob ardal o Flaenau Gwent yn cael ei groesawu.

Mae cynlluniau hefyd i ymgorffori lleoliad gofal plant cyfrwng Cymraeg newydd yn yr ysgol eginblanhigyn newydd sydd wedi'i chynllunio ar gyfer Tredegar o dan y grant ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae hwn yn debygol o ddod yn ddarparwr gofal dydd llawn i roi'r hyblygrwydd mwyaf i'r lleoliad gefnogi rhieni lleol.

Er bod ystod yr oriau agor, yn enwedig ar gyfer darparwyr meithrinfeydd diwrnod llawn, yn dda ar hyn o bryd, mae'n ymddangos bod galw (er yn anodd ei fesur) am ddarparwyr sy'n cynnig gofal am oriau annodweddiadol. Gallai hwn fod yn wasanaeth i ddarparwyr presennol neu newydd ystyried ei dreialu neu ei ddarparu.

## Gofal Sesiynol

Ar hyn o bryd, mae chwe darparwr gofal sesiynol ym Mlaenau Gwent, gostyngiad o wyth darparwr ers yr asesiad diwethaf, gan gynnwys pum darparwr cofrestredig a thri darparwr heb eu cofrestru. Fel yr amlinellwyd yn yr adran gofal dydd llawn, mae rhai darparwyr wedi ailgofrestru fel darparwyr gofal dydd llawn.

| Ardal Cynllunio Cymunedol | Cymraeg | Cymraeg a Saesneg | Saesneg |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| Sirhywi | 0 | 1 | 1 |
| Ebwy Fawr | 0 | 0 | 1 |
| Gogledd Ebwy Fach | 0 | 1 | 0 |
| De Ebwy Fach | 0 | 2 | 0 |
| CYFANSWM | 0 | 4 | 2 |

Mae'r tabl uchod yn nodi nifer y lleoliadau ym Mlaenau Gwent a gwblhaodd y Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth fel darparwyr sesiynol ym mis Gorffennaf 2021, wedi'u categoreiddio yn ôl yr iaith y maent yn gweithredu ynddi. Nid yw'n cynnwys lleoliadau sydd wedi'u cofrestru ar gyfer gofal dydd llawn ond sy'n cynnig gofal sesiynol ac sy'n cael eu cydnabod fel rhai sy'n cynnig gofal sesiynol yn lleol er mwyn osgoi eu cyfrif ddwywaith. Fodd bynnag, cânt eu cynnwys yn yr asesiad o gryfderau, gwendidau a bylchau yn y gwasanaeth.

Mae'r lleoliadau'n cynnig 284 o leoedd dros eu hystod o wasanaethau, sesiynau bore, sesiynau prynhawn a gwasanaethau cinio; ni ddywedodd unrhyw ddarparwr ei fod yn cynnig gofal cofleidiol. Mae niferoedd y lleoedd fesul ardal yn ystod y tymor a nifer y plant sy'n mynychu yn y tabl isod.

| Ardal Cynllunio Cymunedol | Nifer y Lleoedd a Gynigir | Nifer y Plant sy'n Mynychu |
|---|---|---|
| Sirhywi | 80 | 94 |
| Ebwy Fawr | 56 | 26 |
| Gogledd Ebwy Fach | 72 | 29 |
| De Ebwy Fach | 76 | 106 |

Gan ystyried y lleoliadau sydd wedi'u cofrestru ar gyfer gofal dydd llawn ond sy'n cynnig lleoedd gofal sesiynol, mae o leiaf ddau ddarparwr ym mhob ardal cynllunio cymunedol a dosbarthiad rhesymol o leoedd ar draws y pedair ardal cynllunio cymunedol. Fodd bynnag, dim ond dau ddarparwr sydd bellach yn cynnig gofal sesiynol cyfrwng Cymraeg (y ddau wedi'u cofrestru fel gofal dydd llawn), gyda'r lleoliad a oedd wedi'i gategoreiddio fel cyfrwng Cymraeg yn Sirhywi yn yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant diwethaf yn ailgategoreiddio ei hun fel cyfrwng Saesneg a Chymraeg. Mae'r lleoliadau cyfrwng Cymraeg presennol yng Ngogledd Ebwy Fach a De Ebwy Fach.

O ran lleoedd gwag, dywedodd pedwar darparwr fod ganddynt leoedd gwag, yn amrywio o un lle i ddeuddeg lle. Dim ond un darparwr a ddywedodd fod ganddo restr aros (ar gyfer sesiwn foreol) ond mae wedi nodi bod 70 o blant yn aros am le yn y bore. Tybir mai camgymeriad yw hwn gan fod y ffigwr yn ymddangos yn afrealistig o uchel.

Dim ond dau leoliad oedd yn cynnig gofal yn ystod y gwyliau, un yn Sirhywi ac un yn Ne Ebwy Fach. Roedd y ddau hyn yn cynnig rhywfaint o ofal yn ystod gwyliau'r haf, Chwefror a'r Pasg, ond nid yn ystod hanner tymor mis Hydref, y Nadolig, na hanner tymor mis Mai.

Mae oriau agor yn amrywio, gydag un darparwr yn cynnig sesiynau bore yn unig ond y gweddill yn cynnig sesiynau bore a phrynhawn, a dau leoliad yn cynnig gwasanaeth cinio. Fel arfer, pennir hyd sesiynau'r bore a'r prynhawn ar 2.5 awr ar gyfer pob lleoliad cofrestredig. Mae lleoliadau wedi'u cofrestru i gynnig gofal i blant yn y grŵp oedran 2 i 4 oed.

Mae taliadau fesul sesiwn yn amrywio o £9 i £11 y sesiwn.

Mae pob lleoliad wedi'i gofrestru i gyflwyno'r Cynnig Gofal Plant ac mae pob un ond un wedi'i gofrestru gyda Dechrau'n Deg.

Mae Covid wedi effeithio ar bob darparwr, gyda phob lleoliad wedi cau o leiaf unwaith yn ystod y pandemig; caeodd tri darparwr am dros dri mis. Teimlai pob darparwr fod ganddynt fynediad at gyfarpar diogelu personol digonol. Nid oedd yr un lleoliad wedi gweld effaith ar gymarebau staffio ac roedd yr holl staff wedi bod yn cwblhau profion llif unffordd wythnosol. Roedd barn gymysg ar yr effaith ar hyfforddiant, gyda thri lleoliad yn nodi y bu mwy a dau yn llai, ac un yn dweud na fu unrhyw newid. Roedd pob lleoliad yn hyderus ynghylch ei gynaliadwyedd yn y dyfodol am o leiaf y flwyddyn nesaf neu fwy.

**Cryfderau a Gwendidau**

Er bod nifer cyffredinol y darparwyr sydd wedi cofrestru i ddarparu gofal sesiynol wedi gostwng, nid yw nifer y lleoedd sesiynol sydd ar gael wedi gostwng oherwydd bod saith darparwr gofal dydd llawn yn cynnig lleoedd gofal sesiynol yn ychwanegol at y chwe darparwr cofrestredig presennol. Mae lleoliadau sy'n datblygu drwy ailgofrestru i ddod yn ddarparwyr gofal dydd llawn i ddiwallu anghenion rhieni a'u galluogi i gynnig y Cynnig Gofal Plant yn gadarnhaol iawn, i rieni ac i'r lleoliadau eu hunain o ran cynaliadwyedd.

Ar hyn o bryd, mae llai o ddarparwyr sesiynol cyfrwng Cymraeg nag oedd yn 2017 (lleihad o un darparwr); fodd bynnag, fel yr amlinellwyd yn yr adran gofal dydd llawn uchod, mae cynlluniau'n mynd rhagddynt i lenwi bylchau a nodwyd yn Ebwy Fawr a Sirhywi.

Bu cynnydd yn nifer y lleoliadau sy'n cael eu comisiynu i ddarparu Dechrau'n Deg ac mae ehangu'r rhaglen honno yn y dyfodol yn cynnig cyfleoedd gwirioneddol i bob darparwr sesiynol gael cyllid i gyflwyno'r rhaglen hon, ynghyd â mathau eraill o ddarparwyr gofal plant. Mae pob lleoliad wedi'i gofrestru i gyflwyno Cynnig Gofal Plant Cymru, ac mae hyn yn helpu gyda chynaliadwyedd/proffidioldeb.

Mae pob darparwr yn cefnogi'r Cynllun Gofal Plant a Ariennir (Cymorth Lleoedd yn flaenorol). Mae darparwyr yn cynnig cymorth i blant ag anghenion dysgu ychwanegol ac maent wedi ymgysylltu'n dda â gwaith paratoi a dysgu sy'n gysylltiedig â chyflwyno Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

Mae pob darparwr yn ymgysylltu'n dda â thîm y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae ac yn cydymffurfio â'n trefniadau pontio, gan fynychu cyfarfodydd pontio (fel y bo'n briodol) a chwblhau gwaith papur pontio. Mae presenoldeb mewn digwyddiadau rhwydwaith fel arfer yn dda iawn, yn ogystal â'r niferoedd sy'n ymgymryd â hyfforddiant.

Mae sawl darparwr wedi elwa ar ystod o grantiau sydd wedi'u cynnig yn ystod cyfnod y pandemig ac mae'r rhagolygon ar gyfer y sector yn gadarnhaol, gyda lleoliadau'n adrodd rhywfaint o hyder yn eu cynaliadwyedd.

**Darpariaeth Crèche**

Ar hyn o bryd, nid oes darpariaeth crèche ym Mlaenau Gwent. Mae Dechrau'n Deg wedi creu cyfle'n ddiweddar i dendro i ddarparu crèche, ond nid oedd unrhyw ymgeiswyr, ac mae'r cyfle wedi'i aildendro, gan gynnal ymarfer hyrwyddo i geisio annog sefydlu crèche symudol.

**Cryfderau a Gwendidau**

O ystyried nad oes unrhyw ddarpariaeth yn gweithredu ym Mlaenau Gwent ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gryfderau i'w nodi.

Mae angen darpariaeth crèche i gefnogi rhaglenni allweddol Llywodraeth Cymru ac, yn benodol, rhaglenni magu plant Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf, felly mae hwn yn wendid yn y sector gofal plant lleol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae adborth cyfredol yn awgrymu bod natur gyfyngedig gwasanaethau crèche, ynghyd ag anawsterau recriwtio cyffredinol, yn ei wneud yn wasanaeth anodd i ddarparwyr lleol ei gynnal ac felly mae'r cyfle wedi'i rannu'n ehangach i ddenu darparwr newydd i Flaenau Gwent.

**Gofal Plant y Tu Allan i Oriau Ysgol**

Ym mis Gorffennaf 2021, dim ond dau glwb y tu allan i oriau ysgol pwrpasol oedd ym Mlaenau Gwent, y ddau wedi'u lleoli yng Ngogledd Ebwy Fach. Yn anffodus, ers hynny mae un clwb arall wedi cau, gan adael dim ond un clwb ar ôl ar agor. Ar yr adeg yr oedd data'n cael ei gasglu, roedd 130 o blant yn mynychu'r clybiau, yn amser llawn, yn rhan amser ac yn ad hoc, ond roedd y mwyafrif yn mynychu'n ad hoc.

Mae'r clwb sy'n parhau ar agor yn cynnig darpariaeth ar ôl yr ysgol ac yn ystod y gwyliau ac yn categoreiddio ei hun fel lleoliad cyfrwng Saesneg.

Ar adeg casglu'r data, adroddodd yr un darparwr sydd wedi cau wedi hynny fod 40 o leoedd gwag, ond nid oedd y clwb ar agor ar y pryd.

Nid adroddodd y clwb arall ar leoedd gwag na rhestrau aros. Mae'r darparwr hwnnw'n cynnig clwb gwyliau ar gyfer yr holl wyliau ac eithrio wythnosau'r Nadolig. Y taliadau yw £6 am sesiwn ar ôl yr ysgol ac £20 am ofal yn ystod y gwyliau.

**Cryfderau a Gwendidau**

Mae pryderon enfawr ynghylch colli darpariaeth ar ôl yr ysgol bwrpasol ym Mlaenau Gwent, gyda phedwar darparwr ar ôl yr ysgol yn cael eu colli dros y tair blynedd diwethaf, pob un yn ddarparwyr mewn ysgolion. Roedd ailagor clybiau y tu allan i oriau ysgol ar ôl pandemig Covid yn faes anodd i dîm y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae. Heb os, mae'r pandemig wedi cael effaith enfawr, gyda chlybiau ar ôl yr ysgol yn cael eu hatal rhag ailagor hyd at ddechrau tymor yr haf 2021 oherwydd pryderon awdurdodau lleol ac ysgolion ynghylch yr anawsterau wrth reoli mesurau amddiffynnol trwy gynnal swigod / atal plant o wahanol ddosbarthiadau rhag cymysgu. Mae'r sefyllfa wedi'i gwaethygu oherwydd colli galw, colli staff, a phroblemau wrth recriwtio staff newydd. O dystiolaeth anecdotaidd, mae'n ymddangos nad oes angen darpariaeth ar ôl yr ysgol mwyach ar rai rhieni sydd wedi cael eu galluogi i weithio gartref yn ystod y pandemig gan eu bod yn rheoli eu hanghenion gofal plant eu hunain; mae hyn wedi cael effaith ar lefelau galw.

Er bod darparwyr gofal plant eraill yn cynnig darpariaeth ar ôl yr ysgol ac yn ystod y gwyliau, cydnabyddir bod y darparwyr hyn yn aml yn ddrytach na chlybiau pwrpasol mewn ysgolion a bod y rhan fwyaf oddi ar safleoedd ysgol, sy'n golygu bod yn rhaid i blant deithio i'r lleoliad gofal plant.

Yn 2017, dim ond un clwb gwyliau pwrpasol oedd wedi bod ac mae hwnnw ar agor o hyd. Gwasanaeth cyfrwng Saesneg yw hwn felly nid oes darpariaeth ar gyfer plant na rhieni/gofalwyr sydd eisiau gwasanaeth yn Gymraeg neu yn Gymraeg a Saesneg.

Bydd tîm y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae yn gweithio gydag ysgolion lleol, gan gynnwys yr ysgol gynradd Gymraeg, i ganfod yr angen am ofal ar ôl yr ysgol i'w disgyblion, ond bydd yn parhau i fod yn ymwybodol o'r angen i beidio â disodli mathau eraill o ofal plant yn y broses, a hefyd yn ofalus i gydbwyso'r cyflenwad ochr yn ochr â'r galw.

**Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored**

Mae cyfleoedd chwarae mynediad agored wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn gyntaf drwy drefniant comisiynu gydag awdurdod lleol cyfagos ac, yn y ddwy flynedd diwethaf, drwy ddefnyddio tîm chwarae ein hawdurdod lleol ein hunain.

Fel arfer, cynigir sesiynau mynediad agored yn ystod y rhan fwyaf o wyliau ysgol unwaith yr wythnos mewn chwe lleoliad ar draws pob un o'r ardaloedd cynllunio cymunedol. Cyfyngir amserau sesiynau i ddwy awr a rhaid i blant dan wyth oed fod yng nghwmni rhieni.

**Cryfderau a Gwendidau**

Mae'r cyfle i gael mynediad i gyfleoedd chwarae rhydd ym mhob un o'r ardaloedd cynllunio cymunedol yn gadarnhaol i blant a'u rhieni/gofalwyr ac mae'r adborth a dderbyniwyd yn hynod gadarnhaol. Fodd bynnag, mae natur gyfyngedig y ddarpariaeth (sef mewn un lleoliad unwaith yr wythnos am rai wythnosau gwyliau, gydag amseroedd wedi'u cyfyngu i ddwy awr) yn annhebygol o gyflwyno opsiynau gofal plant i'r rhan fwyaf o rieni/gofalwyr.

Yn anochel, mae cyfyngiadau cyllidebol yn golygu bod nifer y sesiynau y gallwn eu cynnig yn gyfyngedig ac nid oes unrhyw gyfle ar hyn o bryd i ymestyn y ddarpariaeth hon. Er ein bod wedi gallu cyflogi dau arweinydd chwarae newydd yn y ddwy flynedd ddiwethaf drwy grant gwaith chwarae Llywodraeth Cymru, mae lefel y gwasanaeth a gynigir yn dal i fod yn ddibynnol iawn ar wirfoddolwyr, gyda rhai ohonynt wedi bod yn gweithio gyda'r tîm ers rhai blynyddoedd. Wrth i wirfoddolwyr symud ymlaen, mae angen recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr newydd.

**Nanis**

Dim ond un nani sydd wedi'i chofrestru'n byw ym Mlaenau Gwent (cofrestriad diweddar – Ebrill 2022), ond nid yw'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn cadw unrhyw wybodaeth am y gwasanaethau a gynigir na'r costau ar hyn o bryd. Mae hwn yn ychwanegiad i'w groesawu i'r ystod o wasanaethau sydd ar gael gan na fu unrhyw nanis yn yr ardal yr ydym wedi bod yn ymwybodol ohonynt o'r blaen.


**Cryfderau a Gwendidau**

Mae cost llogi nanis yn debygol o fod yn rhwystr o hyd i unigolion sy'n cynnig y gwasanaeth a rhieni sy'n dewis y math hwn o ofal plant ym Mlaenau Gwent. Mae fforddiadwyedd gofal plant yn parhau i fod yn bryder mawr i'r rhai sy'n defnyddio gofal plant ar hyn o bryd a'r rhai sy'n bwriadu ei ddefnyddio yn y dyfodol. Yn ôl Talent.com, cyflog nani ar gyfartaledd yn y DU yn 2022 yw £26,325, sy'n cyfateb i dros £500 yr wythnos.

## 6) Cynnig Gofal Plant Cymru

Dim ond pedwar o’r 56 darparwr gofal plant a ddywedodd nad oeddent wedi cofrestru i gyflwyno’r Cynnig Gofal Plant ym Mlaenau Gwent.

Mae 142 o ddarparwyr eraill y tu allan i’r sir wedi’u cofrestru ym Mlaenau Gwent i gyflwyno’r Cynnig Gofal Plant i blant o Flaenau Gwent a/neu Dorfaen. Ym mis Ebrill 2022, roedd 17 o blant o Flaenau Gwent yn manteisio ar y Cynnig Gofal Plant mewn ardaloedd awdurdodau lleol eraill. Roedd yr ymatebwyr yn yr arolwg â phlant 3–4 oed yn defnyddio gofal plant ym Mlaenau Gwent i raddau helaeth (56%), nid oedd gan 15% o ymatebwyr unrhyw gynlluniau i ddefnyddio’r Cynnig Gofal Plant, a dywedodd 11% y gallent gael mynediad ato yn fuan neu yn y dyfodol:



Roedd y rhesymau dros beidio â defnyddio Cynnig Gofal Plant Cymru yn ymwneud yn bennaf â'r ffaith bod y plentyn mewn addysg amser llawn, ond roedd y rhesymau eraill a roddwyd yn cynnwys y canlynol:


*'Nid wyf bellach yn gymwys ar gyfer y cyllid gofal plant ar gyfer fy ieuengaf gan fod fy ngŵr wedi cael ei ddiswyddo'n ddiweddar ar ddiwedd mis Gorffennaf ac mae bellach wrthi'n chwilio am waith eto. Felly fi yw'r unig riant sy'n gweithio'n llawnamser gyda chyflog.'*

*'Heb glywed amdano'*

*'Ddim ar gael i mi'*

*'Ddim yn meddwl ei fod ar gael i ni gan nad ydym yn deulu Dechrau'n Deg'*

Dywedodd mwyafrif sylweddol o'r ymatebwyr a oedd â phlant iau hefyd y byddent yn defnyddio'r Cynnig Gofal Plant pan fyddai eu plentyn yn dair oed:




Mae'r tabl isod yn dangos nifer y ceisiadau ar gyfer pob tymor ers i'r rhaglen gael ei threialu ym Mlaenau Gwent. Mae cymhariaeth fesul tymor, sy'n nodi'r cyfnod pan gafodd y cynllun ei ohirio yng ngwanwyn/haf 2020, yn dangos tuedd ar i fyny o ran y niferoedd sy'n gwneud cais am y Cynnig Gofal Plant.

| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | | Sylwadau |
|---|---|---|
| **Tymor** | **Nifer y Ceisiadau a Dderbyniwyd** | |
| Tymor yr Hydref 2017 | 181 | Rownd gyntaf o geisiadau, felly dwy garfan o blant yn gymwys |
| Tymor y Gwanwyn 2018 | 77 | |
| Tymor yr Haf 2018 | 80 | |
| Tymor yr Hydref 2018 | 106 | |
| Tymor y Gwanwyn 2019 | 98 | |
| Tymor yr Haf 2019 | 92 | |
| Tymor yr Hydref 2019 | 97 | |
| Tymor y Gwanwyn 2020 | 105 | Gohiriwyd y Cynnig Gofal Plant oherwydd COVID yn ystod y rownd ymgeisio hon |
| Tymor yr Haf 2020 | 52 | Gohiriwyd y Cynnig Gofal Plant oherwydd COVID yn ystod y rownd ymgeisio hon |
| Tymor yr Hydref 2020 | 97 | |
| Tymor y Gwanwyn 2021 | 92 | |
| Tymor yr Haf 2021 | 78 | |
| Tymor yr Hydref 2021 | 123 | |
| Tymor y Gwanwyn 2022 | 110 | Mae'r rownd ymgeisio yn parhau ar agor |
| Tymor yr Haf 2022 | 67 | Mae'r rownd ymgeisio yn parhau ar agor |

**Cryfderau a Gwendidau**

Mae mwyafrif y darparwyr ym Mlaenau Gwent (93%) wedi'u cofrestru i gyflwyno'r Cynnig Gofal Plant ym Mlaenau Gwent, gan gynnig dewis eang o ddarpariaeth i rieni sydd am fanteisio ar y cynnig. Mae nifer o blant yn gallu manteisio ar y cynnig mewn ardaloedd awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, felly mae'n ymddangos bod trefniadau trawsffiniol yn gweithio'n dda. Ers i'r cynllun peilot gael ei gyflwyno, mae sawl darparwr wedi ailgofrestru fel gofal dydd llawn, estyn ei oriau agor, neu ychwanegu darpariaeth gwyliau i ddiwallu anghenion rhieni sydd am fanteisio ar y cynnig, ac mae rhai wedi ychwanegu gwasanaethau codi/gollwng i ddarparu gofal cofleidiol llawn.

Dywedodd mwyafrif sylweddol o rieni/gofalwyr eu bod naill ai'n defnyddio'r Cynnig Gofal Plant neu'n bwriadu ei ddefnyddio pan ddaeth eu plentyn yn gymwys. Ym Mlaenau Gwent, mae holl rieni plant sy'n nesáu at eu penblwydd yn dair oed yn cael eu targedu gyda gwybodaeth am y Cynnig Gofal Plant. Mae'n ymddangos bod y rhan fwyaf o rieni/gofalwyr yn ymwybodol o'r cynnig, ac roedd hyn hefyd yn wir am randdeiliaid a ymatebodd i'r arolygon a gyhoeddwyd.

Gall y broses ymgeisio fod yn gymhleth i rai rhieni, yn enwedig y rheini sy'n ddi-waith, ac mae awdurdodau lleol gwahanol yn defnyddio systemau ymgeisio gwahanol, gan ei gwneud yn amhosibl i achos a gymeradwywyd gael ei drosglwyddo o un ardal i'r llall. Mae adborth gan ddarparwyr wedi dangos lefelau o rwystredigaeth a baich gweinyddol a achosir gan rai darparwyr yn cael plant o fwy nag un ardal awdurdod lleol, sy'n golygu eu bod yn delio â dau awdurdod lleol neu fwy ac yn llywio systemau hawlio/talu gwahanol.

Rhagwelir y bydd cyflwyno un platfform digidol cenedlaethol ar gyfer ceisiadau rhieni a hawliadau/taliadau darparwyr yn symleiddio pethau i rieni/gofalwyr a darparwyr fel ei gilydd.

Mae'r adolygiad diweddar o gyfraddau a'r cynnydd yn y gyfradd fesul awr o £4.50 yr awr i £5.00 yr awr o fis Ebrill 2022 wedi'u croesawu'n gynnes gan ddarparwyr lleol, a oedd wedi bod yn derbyn yr un gyfradd ers 2017.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'n ddiweddar y bydd y rhaglen yn cael ei hymestyn i rieni/gofalwyr plant tair a phedair oed dan hyfforddiant, a bydd hyn yn sicr yn cynyddu cyfraddau ymgeisio ymhellach.

## 7) Dechrau'n Deg

Mae lleoliadau Dechrau'n Deg ym Mlaenau Gwent yn gymysgedd o leoliadau sy'n cael eu rhedeg gan yr awdurdod lleol (2) a darparwyr a gomisiynir (13). Mae pob lleoliad yn derbyn y rhai sy'n talu ffioedd a phlant y Cynnig Gofal Plant ac yn cynnig lleoedd cynllun gofal plant a ariennir gan yr awdurdod lleol yn ogystal â phlant Dechrau'n Deg, felly nid yw'r un lleoliad yn Dechrau'n Deg yn unig. Gall nifer y plant sy'n mynychu lleoliad â lle Dechrau'n Deg amrywio o un plentyn i 33.

Mae darpariaeth gofal plant newydd yn cael ei datblygu ar hyn o bryd ar safle Ysgol Gynradd Swffryd a fydd yn mynd allan i dendr yn fuan am ddarparwr newydd neu ddarparwr presennol i wneud cais amdani. Rhagwelir y bydd y ddarpariaeth ar agor erbyn diwedd 2022.

Mae darparwyr fel arfer wedi'u lleoli o fewn neu'n agos at ardaloedd daearyddol penodedig Dechrau'n Deg; fodd bynnag, er mwyn ymateb i'r galw am leoedd allgymorth, mae darparwyr pellach wedi'u comisiynu i alluogi rhieni/gofalwyr i gael mynediad at ofal plant yn agos i'w cartrefi. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw warchodwyr plant wedi'u comisiynu i ddarparu gwasanaeth. Mae gwaith ychwanegol yn cael ei wneud ar hyn o bryd i gefnogi mwy o ddarparwyr gofal plant presennol i ddod yn ddarparwyr Dechrau'n Deg cofrestredig. Bydd fframwaith newydd i warchodwyr plant gofrestru fel darparwyr hefyd ar gael erbyn mis Medi 2022 i gefnogi ehangu rhaglen Dechrau'n Deg. Bydd y rhaglen ehangu yn blaenoriaethu: mynd i'r afael ag amddifadedd, cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg, a mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth sydd ar gael.

| Math o Ofal Plant | Darparwyr fesul Ardal | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Sirhywi | Ebwy Fawr | Gogledd Ebwy Fach | De Ebwy Fach | Cyfanswm |
| Gofal Dydd Llawn | 3 | 4 | 2 | 3 | 12 |
| Sesiynol | 1 | 1 | | 1 | 3 |

Mae dau ddarparwr yn cynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg, un yn Ne Ebwy Fach ac un yng Ngogledd Ebwy Fach. Dywedodd saith darparwr eu bod yn cynnig gwasanaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg, gyda'r saith arall yn cynnig gwasanaeth uniaith Saesneg.

| Blwyddyn | Nifer sy'n Manteisio / Nifer Cymwys | Cyfradd Manteisio |
|---|---|---|
| 2017-18 | 244/269 | 91% |
| 2018-19 | 261/231 | 89% |
| 2019-20 | 202/219 | 92% |

| | | |
|---|---|---|
| 2021-22 Tymor 1 | 96/106 | 91% |

Mae'r nifer sy'n manteisio ar ofal plant Dechrau'n Deg yn parhau i fod yn uchel ym Mlaenau Gwent, fel y dangosir yn y ffigurau uchod. Mae Dechrau'n Deg yn casglu gwybodaeth gan rieni/gofalwyr am resymau dros wrthod lle Dechrau'n Deg ac, yn 2020-21, roedd y rhain fel a ganlyn:

| Rheswm dros Wrthod | Tymor 1 | Tymor 2 | Tymor 3 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Yn mynychu gofal plant preifat / amser llawn | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Rhiant yn bryderus | 2 | 1 | 1 | 4 |
| Gofal plant amgen, e.e. neiniau a theidiau | 1 | 2 | 0 | 3 |
| Oherwydd oedran | 1 | 1 | 0 | 2 |
| Trafnidiaeth | 1 | 0 | 0 | 1 |
| Symud allan o'r ardal | 1 | 1 | 0 | 2 |
| Gofal plant preifat y tu allan i ardal Dechrau'n Deg | 1 | 0 | 1 | 2 |
| Wedi gwrthod rhoi rheswm / Ni roddwyd rheswm | 1 | 1 | 1 | 3 |

Dim ond 16 o rieni a gwblhaodd yr arolwg rhieni oedd yn defnyddio gofal plant Dechrau'n Deg. Yn ôl rhieni nad oeddent yn defnyddio ardaloedd Dechrau'n Deg, y prif resymau am hyn oedd peidio â byw mewn ardal Dechrau'n Deg / peidio â bod yn gymwys. Roedd y sylwadau'n cynnwys y canlynol:

*'Rydyn ni'n byw un stryd i ffwrdd o fod allu cael mynediad'*

*'Ddim yn byw mewn ardal Dechrau'n Deg yn anffodus. Fe wnes i pan gafodd fy merch ei geni, hyd at yn ddiweddar, ac roedd yn ddefnyddiol iawn. Mae'n drueni mai dim ond rhai ardaloedd sy'n cael eu dosbarthu'n ardaloedd Dechrau'n Deg gan y bydd fy mabi ar y ffordd yn colli allan'*

*'Dim gwybodaeth amdano, ddim yn gwybod ble mae e, os ydw i mewn ardal Dechrau'n Deg ac ati'*

*'Dydw i ddim yn byw mewn ardal Dechrau'n Deg'*

*'Na, oherwydd nid yw ar gael i mi. Mae'r tai ar ochr arall y stryd yng Nghwm yn gymwys ar gyfer Dechrau'n Deg ond nid yw fy ochr i'*

*'Ddim mewn ardal Dechrau'n Deg'*

*‘Ddim yn byw mewn ardal Dechrau’n Deg’*

*‘Dydw i ddim yn meddwl ein bod ni’n gymwys’*

*‘Na, fel yr eglurwyd yn flaenorol, ddim yn gymwys mwyach’*

*‘Ddim yn yr ardal iawn ar gyfer Dechrau'n Deg!’*

*‘Oherwydd nid yw Dechrau’n Deg yn dderbyniol yn fy ardal i nac yn y cod post sydd gen i’*

*‘Mae Dechrau’n Deg yn ein hardal ni yn dibynnu ar ba god post yr ydych yn byw ynddo. Gan nad yw fy nghod post yn perthyn i’r cod post perthnasol, mae’n colli allan ar ofal plant Dechrau’n Deg a’r holl weithgareddau y maent yn eu cynnal yn ystod y flwyddyn’*

Cafodd un lleoliad Dechrau’n Deg awdurdod lleol ei addasu i ymateb i bandemig Covid a’r cyfyngiadau symud cyntaf, gan ymestyn ei gofrestriad i gynnig gwasanaeth i ystod oedran ehangach o blant ac oriau agor hirach i blant agored i niwed a phlant gweithwyr allweddol. Mae’r un lleoliad hwnnw wedi parhau i ymestyn y gwasanaeth ar ôl Covid ac wedi symud o sesiynau Dechrau’n Deg yn y bore yn unig i gynnwys sesiynau prynhawn i fodloni’r galw am ofal plant yn yr ardal honno.

**Cryfderau a Gwendidau**

Mae cymysgedd da o ddarpariaeth Dechrau’n Deg ym Mlaenau Gwent, gyda dewis o leoliadau ar draws ardaloedd cynllunio cymunedol sy’n darparu naill ai gofal sesiynol neu ofal dydd llawn, gan alluogi rhieni i gael parhad gofal plant a gofal cofleidiol os oes angen. Dim ond mewn dwy ardal yn unig y ceir dewis o ddarpariaeth iaith ar hyn o bryd, ond mae cynlluniau i adeiladu darpariaeth cyfrwng Cymraeg newydd yn Ebwy Fawr a Sirhywi, dwy ardal sydd wedi’u nodi mewn dadansoddiadau o’r bylchau blaenorol (fel y nodir yn yr adran gofal dydd llawn).

Mae ymgysylltiad lleoliadau â phroses sicrhau ansawdd yr awdurdod lleol bob amser wedi bod yn gadarnhaol iawn. Mae cynllun newydd wedi’i ddatblygu’n ddiweddar ac mae lleoliadau gofal plant, gan gynnwys darparwyr Dechrau’n Deg, wedi’u cynnwys yn y broses ddatblygu.

Mae trefniadau pontio wedi’u sefydlu’n dda i hwyluso’r broses o drosglwyddo plant i’r lleoliad ac yna ymlaen i ddechrau meithrinfa ysgol. Mae pob lleoliad yn ymgysylltu â’r broses ac yn mynychu cyfarfodydd pontio.

Mae’r canlyniadau ar gyfer plant sy’n defnyddio gofal plant Dechrau’n Deg, a’r rhaglen gyfan, yn cael eu monitro’n agos a’u hadrodd i Lywodraeth Cymru. Mae’r wybodaeth reoli a gynhyrchir yn helpu i siapio darpariaeth y gwasanaeth hwn yn y dyfodol.

Un o wendidau Dechrau'n Deg yw nad yw'n wasanaeth cyffredinol sydd ar gael i bob plentyn a rhiant ym Mlaenau Gwent. Erys ymdeimlad bod rhieni'n teimlo bod yna annhegwch yn natur cod post y gwasanaeth. Dylai'r cynllun i ehangu Dechrau'n Deg o fis Medi 2022 helpu i liniaru hyn.

At hynny, mae yna awgrym, gan rai gwarchodwyr plant a PACEY Cymru, y dylai gwarchodwyr plant allu cofrestru i ddarparu Dechrau'n Deg ym Mlaenau Gwent. Mae hyn yn rhywbeth a fydd yn cael ei ystyried fel rhan o'r cynlluniau i ehangu Dechrau'n Deg a grybwyllwyd uchod.

## 8) Darpariaeth Clwb Brecwast am Ddim

Mae pob ysgol gynradd ym Mlaenau Gwent yn cynnig clwb brecwast am ddim, er y cafodd gwasanaethau eu hatal yn ystod Covid oherwydd pryderon am gynnal swigod a chyfyngu ar risgiau haint/hunanynysu. Mae pob un wedi ailagor ers dechrau Ionawr 2022.

| Ardal | Enwau'r Ysgolion |
| --- | --- |
| Sirhywi | Ysgol Gynradd Deighton, Ysgol Gynradd Glanhywi, Ysgol Gynradd Bryn Bach, Ysgol Gynradd Georgetown, Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseff |
| Ebwy Fawr | Ysgol Gynradd Cymuned Ddysgu Ebwy Fawr, Ysgol Gynradd Gatholig yr Holl Saint, Ysgol Gynradd Willowtown, Ysgol Gynradd Cwm, Ysgol Gynradd Glyncoed, Ysgol Gynradd Beaufort Hill, Ysgol Gynradd Rhos-y-fedwen |
| Gogledd Ebwy Fach | Ysgol Gynradd Blaen-y-cwm, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair, Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair, Ysgol Gynradd Coed-y-garn, Ysgol Gymraeg Bro Helyg, Ysgol Gynradd Ystruth |
| De Ebwy Fach | Cymuned Ddysgu Abertyleri: Campws Stryd Tyleri, Campws Heol Roseheyworth, Campws Six Bells, Ysgol Gynradd Sant Illtyd, Ysgol Gynradd Soffryd |

## 9) Darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen

Mae gan Flaenau Gwent dri lleoliad nas cynhelir a 23 o ysgolion cynradd yn cynnig Darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen. Nodir lle mae'r lleoliadau/ysgolion isod, ynghyd â niferoedd derbyn.

| Ardal | Enwau'r Lleoliadau/Ysgolion | Nifer Derbyn |
|---|---|---|
| Sirhywi | Gofal Dydd Tiggy | Heb ei nodi – yn ôl y galw |
| | Ysgol Gynradd Deighton | 30 |
| | Ysgol Gynradd Glanhywi | 65 |
| | Ysgol Gynradd Bryn Bach | 30 |
| | Ysgol Gynradd Georgetown | 60 |
| | Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseff | 41 |
| Ebwy Fawr | Cylch Chwarae Acorns | Heb ei nodi – yn ôl y galw |
| | Ysgol Gynradd Cymuned Ddysgu Ebwy Fawr | 58 |
| | Ysgol Gynradd Gatholig yr Holl Saint | 30 |
| | Ysgol Gynradd Willowtown | 60 |
| | Ysgol Gynradd Cwm | 52 |
| | Ysgol Gynradd Glyncoed | 52 |
| | Ysgol Gynradd Beaufort Hill | 30 |
| | Ysgol Gynradd Rhos-y-fedwen | 26 |
| Gogledd Ebwy Fach | Ysgol Gynradd Blaen-y-cwm | 26 |
| | Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes | 30 |
| | Fair | 53 |
| | Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair | 30 |
| | Ysgol Gynradd Coed-y-garn | 60 |
| | Ysgol Gymraeg Bro Helyg | 37 |
| | Ysgol Gynradd Ystruth | |
| De Ebwy Fach | Cylch Meithrin Brynithel | Heb ei nodi – yn ôl y galw |
| | Cymuned Ddysgu Abertyleri: | |
| | Campws Abertyleri | 59 |
| | Campws Roseheyworth | 45 |
| | Campws Six Bells | 45 |
| | Ysgol Gynradd Sant Illtyd | 30 |
| | Ysgol Gynradd Swffryd | 19 |

Mae pob ysgol gynradd a champws o ysgolion 3-16 ym Mlaenau Gwent yn cynnig addysg blynyddoedd cynnar, gan gynnig lleoedd ym mhob ward ym mhob ardal cynllunio cymunedol. Yn ogystal, mae tri darparwr nas cynhelir bellach, sef cynnydd o un darparwr ers yr asesiad diwethaf, sy'n caniatáu lleoedd a dewis ychwanegol i rieni, gan gynnwys dewis iaith (gan mai lleoliad cyfrwng Cymraeg yw'r darparwr diweddaraf i gofrestru). Mae'r nifer sy'n manteisio ar addysg blynyddoedd cynnar yn parhau i fod yn uchel ym Mlaenau Gwent, gan ostwng ychydig yn 2020/21 a 2021/22, o bosibl o ganlyniad i bryderon ynghylch Covid:


| | |
|---|---|
| 2021/22 | 92% |
| 2020/21 | 92% |
| 2019/20 | 99% |
| 2018/19 | 94% |
| 2017/18 | 97% |

Mae pob plentyn yn cael cynnig lle dros bum diwrnod yr wythnos, ond, er bod pob darparwr nas cynhelir yn cynnig 12.5 awr, mae'r oriau a gynigir gan ddarparwyr ysgol yn amrywio, o 10 awr yr wythnos i 30 awr yr wythnos, ac weithiau gallant amrywio mewn un ysgol, yn dibynnu ar a yw lle yn y bore neu'r prynhawn yn cael ei gynnig.

## 10) Deall Anghenion Rhieni/Gofalwyr

Cwblhaodd 233 o rieni/gofalwyr yr arolwg gofal plant gan nodi mai eu hardal awdurdod lleol oedd Blaenau Gwent; fodd bynnag, gellid canfod o'r data bod 28 o'r arolygon wedi'u cwblhau gan rieni sy'n byw y tu allan i'r ardal. Ni ellid canfod ardal yr awdurdod lleol ar gyfer 28 o rieni/gofalwyr eraill. Mae nifer yr ymatebion yn isel iawn, er gwaethaf ymdrechion mawr i hyrwyddo'r arolwg yn helaeth ar draws Blaenau Gwent, ac felly ni fydd o reidrwydd yn gynrychioliadol o'r garfan lawn o rieni/gofalwyr yn yr ardal.

Mae'r rhaniad daearyddol ar gyfer yr ymatebwyr hynny sy'n byw ym Mlaenau Gwent fel a ganlyn:




Mae yna ymatebwyr o bob ardal, ond mae cyfran lawer uwch o ymatebion gan rieni/gofalwyr sy'n byw yn Ebwy Fawr, sef 42%, sy'n fwy na'r gyfran boblogaeth gyffredinol, sef 33%. I'r gwrthwyneb, roedd y gyfradd ymateb ar gyfer De Ebwy Fach yn llawer is, sef 12%, na chyfran y boblogaeth gyffredinol, sef 23%.

Dywedodd rhieni/gofalwyr wrthym fod y gofal plant yr oeddent yn ei ddefnyddio ar hyn o bryd yn ystod y tymor a'r gwyliau fel a ganlyn:

| Amser Tymor | | Gwyliau | |
|---|---|---|---|
| Gofal Plant | Cyfanswm | Gofal Plant | Cyfanswm |
| Gwarchodwr Plant | 28 | Gwarchodwr Plant | 23 |
| Clwb cyn yr Ysgol / Clwb Brecwast | 50 | Clwb Gwyliau | 9 |
| Clwb ar ôl yr Ysgol | 23 | Meithrinfa Ddydd Breifat | 67 |
| Meithrinfa Ddydd Breifat | 71 | Cylch Chwarae | 5 |
| Meithrinfa Ysgol | 25 | Ysgol Ragbaratoawl (Preifat) | 0 |
| Cylch Chwarae | 12 | Cylch Meithrin | 0 |
| Crèche Galw Heibio | 1 | Crèche Galw Heibio | 1 |
| Nani | 0 | Nani | 0 |
| Au Pair | 0 | Au Pair | 0 |
| Teulu/Ffrindiau (am dâl) | 5 | Teulu/Ffrindiau (am dâl) | 8 |
| Teulu/Ffrindiau (di-dâl) | 137 | Teulu/Ffrindiau (di-dâl) | 133 |
| Dim | 20 | Dim | 30 |
| Cylch Meithrin | 2 | Arall | 0 |
| Arall (heb ei nodi) | 9 | | |


Yn yr un modd â chanlyniadau'r asesiad diwethaf, mae nifer sylweddol o rieni yn dal i ddibynnu ar ofal plant anffurfiol, yn ystod y tymor ac yn ystod y gwyliau. O ran darpariaeth fwy ffurfiol, y math mwyaf poblogaidd o ofal plant cofrestredig ymhlith ymatebwyr yw meithrinfa diwrnod llawn, gyda gwarchodwyr plant yn dilyn.

Roedd naw allan o 43 o rieni/gofalwyr â phlant dwy oed yn cael lle Dechrau'n Deg. Roedd rhieni/gofalwyr nad oeddent yn defnyddio Dechrau'n Deg yn byw i raddau helaeth y tu allan i ardal Dechrau'n Deg, ac felly'n anghymwys.

Ar gyfer y 77 o rieni/gofalwyr â phlant tair i bedair oed, dywedodd 55 eu bod yn defnyddio addysg gynnar a dywedodd 34 eu bod yn defnyddio'r Cynnig Gofal Plant. Roedd y rhesymau dros beidio â defnyddio'r Cynnig Gofal Plant yn cynnwys: plentyn mewn ysgol amser llawn, heb glywed amdano, ddim yn gymwys.

Dywedodd 9.5% o ymatebwyr fod gan eu plentyn anabledd, a dywedodd 11% fod gan eu plentyn anghenion addysgol arbennig neu ddysgu ychwanegol.

Er bod cyfran uwch o rieni/gofalwyr wedi nodi nad oedd ganddynt unrhyw gostau gofal plant, roedd nifer sylweddol o'r gyfran gyfan yn defnyddio gofal teulu/ffrindiau heb dâl. O'r rhai a oedd yn gorfod talu, y gost fwyaf cyffredin oedd rhwng £50 a £99 yr wythnos.




Fel y nodwyd gan yr arolwg darparwyr, mae mwyafrif y plant yn mynychu lleoliadau yn rhan amser. Dim ond 38 o rieni/gofalwyr a nododd eu bod yn defnyddio 30 awr neu fwy o ofal plant yr wythnos.

Dywedodd mwyafrif sylweddol o rieni/gofalwyr eu bod naill ai'n fodlon iawn neu'n eithaf bodlon ar eu darparwr gofal plant presennol (95%).


Nododd rhieni/gofalwyr fod rhwystrau i gyrchu gofal plant cyfrwng Cymraeg yn cynnwys pellter (11 o ymatebwyr), argaeledd (11 o ymatebwyr), oriau annigonol (pump o ymatebwyr) a chost (tri ymatebydd).

I'r rhai nad ydynt yn hapus gyda'u gofal plant, awgrymwyd y gwelliannau canlynol:




Mae fforddiadwyedd ac oriau agor estynedig yn nodwedd amlycaf yn ymatebion rhieni.

Gofynnwyd i ymatebwyr nad oeddent yn defnyddio gofal plant roi rhesymau pam nad oeddent yn gwneud hynny, a'r prif reswm a roddwyd (o gryn dipyn) oedd cost gofal plant. Dilynwyd hyn gan ddewis defnyddio teulu/ffrindiau. Er bod y niferoedd yn gymharol isel, mae'n destun pryder bod rhai rhieni/gofalwyr yn sôn am anawsterau wrth ddod o hyd i ofal plant sydd ar gael i oedran eu plentyn ac sy'n addas ar gyfer eu hanghenion. Mae rhai rhieni hefyd yn cael anawsterau gyda'r hyblygrwydd a gynigir gan wasanaethau.




Gwahoddwyd sylwadau eraill am wasanaethau gofal plant ar ddiwedd yr arolwg a gellir didoli ymatebion yn themâu, gan gynnwys y canlynol:


- Roedd clybiau ar ôl yr ysgol / clybiau brecwast yn peidio â rhedeg yn ystod y pandemig yn broblem fawr
- Diffyg darpariaeth ar gyfer plant ag ADY ac anableddau
- Costau gofal plant yn rhwystr i weithio / cynyddu oriau gwaith
- Hyblygrwydd oriau agor yn broblem
- Darpariaeth ar gyfer plant hŷn yn anos ei chael
- Pryderon am ansawdd y gofal

11) **Galw yn y Dyfodol**


**Arolwg Rhieni/Gofalwyr**
Mae canlyniadau'r arolwg yn dangos bod mwyafrif yr ymatebwyr wedi dweud y byddai angen mwy o ofal plant arnynt yn y dyfodol. Wedi'u dadansoddi yn ôl ardal cynllunio cymunedol, mae'n ymddangos y bydd y galw mwyaf yn y dyfodol yn Ebwy Fawr, wedi'i dilyn gan Sirhywi, Gogledd Ebwy Fach ac yna De Ebwy Fach.




Pan ofynnwyd pa fath o ofal plant ychwanegol oedd ei angen yn y dyfodol, mae'r canlyniadau'n dangos dibyniaeth barhaus ar ofal teulu/ffrindiau heb dâl ond hefyd mwy o alw am leoedd clwb brecwast, clwb ar ôl yr ysgol a meithrinfa diwrnod llawn. Fodd bynnag, rhaid nodi eto nad yw maint y sampl yn fawr, a rhaid bod yn ofalus o ran cynlluniau 'posibl' ar gyfer y dyfodol ar gyfer gofal plant.




Dywedodd 49 o ymatebwyr fod ganddynt rywfaint o sgiliau Cymraeg. O ran y galw am ofal plant cyfrwng Cymraeg yn benodol, mae ymateb y rhieni/gofalwyr yn dangos bod cyfanswm o 26 o rieni sydd wedi nodi naill ai y byddent yn hoffi neu o bosibl yn hoffi defnyddio gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.




**Datblygiadau Allweddol**

Mae data poblogaeth presennol yn awgrymu y bydd gostyngiad parhaus yn y boblogaeth ym Mlaenau Gwent, yn arbennig o amlwg yn y grŵp 0-15 oed. Gallai hyn ynddo'i hun, os caiff ei gadarnhau gan ddata cyfrifiad diweddaraf 2021, ddangos y gallai'r angen am ofal plant leihau hefyd. Fodd bynnag, mae yna ffactorau eraill a fydd yn effeithio ar anghenion gofal plant yn y dyfodol, neu a allai effeithio arnynt.

Mae'r rhain yn cynnwys ehangu rhaglen Dechrau'n Deg, gan ddechrau yn 2022, gyda'r bwriad o gynnig darpariaeth gofal plant i bob plentyn dwy oed yn y blynyddoedd i ddod. Er bod graddau'r ehangu yn y flwyddyn gyntaf yn gymharol fach o ran niferoedd, gydag 88 o blant ychwanegol yn gallu cael mynediad at ofal plant o fis Medi 2022, yn y pen draw bydd y garfan lawn o blant dwy oed sy'n defnyddio gofal plant yn ysgogi llawer mwy o alw. Yn haf 2021, roedd 475 o blant dwy oed yn mynychu lleoliad gofal plant; fel cyfran o'r amcangyfrif o'r boblogaeth o 733 o blant (ar gyfer plant un oed yn 2020 a fyddai'n blant dwy oed yn 2021), mae hynny'n cynrychioli 65%. O fewn y 65% hwnnw o blant sy'n mynychu gofal plant, mae hefyd yn bwysig cydnabod na fydd pob un o'r plant hynny'n mynychu lleoliadau bum diwrnod yr wythnos. Mae

tystiolaeth o'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth yn dangos mai presenoldeb rhan-amser yw'r math mwyaf cyffredin o bresenoldeb o bell ffordd. Mae niferoedd y plant sy'n cynyddu'r diwrnodau y maent yn mynychu lleoliad, ynghyd â phlant sy'n dod yn gymwys ar gyfer gofal plant Dechrau'n Deg na fyddent wedi mynychu fel arall, yn debygol o arwain at angen llawer mwy am ddarpariaeth gofal plant cyn ysgol. Mae tîm Dechrau'n Deg a thîm y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae yn gweithio ar hyn o bryd i fesur y lleoedd sydd eisoes ar gael yn erbyn y galw cynyddol.

Gallai ymestyn Cynnig Gofal Plant Cymru i rieni sy'n cael mynediad at hyfforddiant ac addysg, o fis Medi 2022, effeithio ymhellach ar nifer y plant tair a phedair oed sy'n defnyddio gofal plant. Mae'n anodd meintioli'r niferoedd gan ei bod yn bosibl bod llawer o'r plant a allai fod yn gymwys o dan yr estyniad hwn eisoes yn defnyddio gofal plant a ariennir gan rieni, y cynllun Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE), neu gynlluniau ariannu colegau.

Mae nifer sylweddol o ddatblygiadau tai newydd a allai ddenu teuluoedd i symud i Flaenau Gwent. Mae'r cynnydd enfawr yn nifer y bobl sy'n cael cyfleoedd i weithio gartref yn annog llawer o deuluoedd i ymestyn eu hardaloedd chwilio am dai ac efallai y bydd y prisiau tai cymharol is ym Mlaenau Gwent yn denu teuluoedd o ardaloedd cyfagos. Gallai cynlluniau ar gyfer tua 1,500 o gartrefi newydd yn ardal Ebwy Fawr ac ychydig llai na 300 o gartrefi yn ardal Sirhywi ddenu teuluoedd newydd i'r ardaloedd hynny a gallent effeithio ar anghenion gofal plant, yn yr ardaloedd hynny'n benodol, neu'n ehangach ym Mlaenau Gwent. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ddatblygiadau busnes mawr wedi'u cynllunio a fyddai'n cael effaith ar lefelau tebygol y galw am ofal plant.

Gallai cynlluniau Llywodraeth Cymru i ymestyn y diwrnod ysgol yng Nghymru o bosibl ac ailstrwythuro dyddiadau tymhorau hefyd effeithio ar anghenion gofal plant neu batrwm y gofal plant a gynigir yn y dyfodol, yn enwedig ar gyfer darparwyr gofal ar ôl yr ysgol a gofal gwyliau. Roedd cynlluniau peilot a gynhaliwyd yn nhymor y gwanwyn 2021 yn cynnig diwrnod ysgol estynedig i rai plant gydag awr wedi'i hychwanegu at ddiwedd y diwrnod ysgol. Gall hyn gael gwared ar yr angen am ofal plant ar gyfer rhai rhieni, ond nid yw'n debygol o fod yn addas i bob rhiant, a allai fod angen gofal plant yn hwyrach yn y prynhawn ac yn gynnar gyda'r nos. Gall newidiadau i ddyddiadau tymhorau gael llai o effaith, oni bai fod nifer yr wythnosau tymor yn cynyddu.

Mae Blaenau Gwent yn un o ddeg awdurdod lleol sy'n ymwneud â Bargen Ddinesig Caerdydd, sydd wedi'i chynllunio *'i adeiladu ar gryfderau sectoraidd y rhanbarth, ei sylfaen sgiliau uchel a thair prifysgol lwyddiannus, a chyflymu twf economaidd a chynhyrchiant trwy gyfres o fuddsoddiadau wedi'u targedu mewn sgiliau, seilwaith, prosiectau graddadwy dan arweiniad arloesedd, a sectorau a busnesau mewn diwydiannau â blaenoriaeth'.* Gyda disgwyl i lefelau buddsoddi cyfunol gyrraedd £1.2bn, amcangyfrifir y bydd yn creu 25,000 o swyddi newydd yn y rhanbarth dros gyfnod o ugain mlynedd. Gallai hyn olygu bod lefelau diweithdra ym Mlaenau Gwent yn gostwng, a allai arwain at alw am ofal plant gan rieni sy'n gweithio.

Mae’r pandemig wedi cynnig llawer mwy o hyblygrwydd yn eu horiau gwaith i lawer o rieni sy’n gweithio ac wedi cynnig trefniadau gweithio gartref neu waith hybrid. Ymddengys nad yw llawer o sefydliadau ar hyn o bryd yn bwriadu dychwelyd i fodelau gwaith cyn y pandemig ac y bydd trefniadau gweithio hyblyg yn cael eu cadw. Mae’n ymddangos bod hyn wedi effeithio ar y sector gofal plant yn ystod y pandemig, gydag effaith benodol ar batrymau presenoldeb (llai o blant yn mynychu’n llawn amser) a llai o ddefnydd o ofal ar ôl yr ysgol.

## 12) Darpariaeth Drawsffiniol

Mae cytundeb ymhlith awdurdodau lleol Gwent y gall plant gael mynediad i Ddarpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen mewn awdurdod lleol arall yn y rhanbarth ac y bydd y costau'n cael eu talu gan yr awdurdod lleol y mae'r plentyn yn defnyddio'r ddarpariaeth ynddo.

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw blant o'r tu allan i Flaenau Gwent yn cael mynediad i Ddarpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau nas cynhelir ym Mlaenau Gwent. Nid oes gan yr awdurdod lleol fynediad at wybodaeth am blant o Flaenau Gwent sy'n defnyddio Darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen neu ofal plant yn rhywle arall.

Mae cysylltiadau gwaith cryf ag awdurdodau lleol eraill Gwent a Gwasanaeth Cyflawni Addysg De Cymru wrth gefnogi darparwyr addysg y blynyddoedd cynnar. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd i rannu gwybodaeth ac i gytuno ar ddyraniadau grant a blaenoriaethau ar gyfer y sector. Mae awdurdodau lleol yn ymuno â'r digwyddiadau rhwydwaith tymhorol i ddarparu diweddariadau sy'n berthnasol i ddarparwyr.

Mae cydweithio agos hefyd ag awdurdodau cyflenwi eraill y Cynnig Gofal Plant pan fydd teulu'n symud o un ardal i'r llall, er mwyn cefnogi parhad y gwasanaeth wrth ddileu'r potensial am gyllid dwbl ar yr un pryd.

## 13) Datblygu’r Gweithlu

Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd sydd wedi’i hysgrifennu yn y canllawiau statudol ar ofal plant i awdurdodau lleol (diwygiwyd 2016) i ddarparu mynediad at lefel briodol o hyfforddiant sy’n sicrhau bod darparwyr gofal plant yn gallu rhedeg yn effeithiol ac yn effeithlon.

Mae tîm Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae Blaenau Gwent yn monitro cymwysterau a hyfforddiant a ymgymerir yn flynyddol ac yn cofnodi hyfforddiant wrth iddo gael ei wneud yn fewnol. Mae’r tîm yn defnyddio’r wybodaeth a gafwyd i gynllunio ar gyfer anghenion hyfforddi, wedi’i chyfoethogi gan wybodaeth a ddarperir gan y Swyddog Gwella Ansawdd, y Swyddog Cyfleoedd Chwarae Digonol, Athro Ymgynghorol Dechrau’n Deg a Chydlynydd Gofal Plant Dechrau’n Deg a godir yn ystod prosesau sicrhau ansawdd ac ymweliadau monitro/cymorth. Darperir mewnbwn hefyd gan y Swyddog Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy a chydweithwyr sy’n eistedd ar banel Cymorth Anghenion Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar. Defnyddir y cofnodion hefyd i dynnu sylw darparwyr at hyfforddiant sydd ar fin dod i ben a/neu sydd wedi dod i ben ac i fonitro’r nifer sy’n manteisio ar hyfforddiant/cymwysterau sy’n ofynnol o dan y Safonau Gofynnol Cenedlaethol a/neu gydymffurfedd â’r hyfforddiant/cymwysterau hyn. Mae’r dyfyniad canlynol o’r daenlen yn dangos sut mae’r tîm yn defnyddio data ar gyfer monitro a chynllunio. Gyda chyflwyniad Cynnig Gofal Plant Cymru, ac ehangu arfaethedig rhaglen Dechrau’n Deg, mae’n hanfodol cynnal proffil o’r gweithlu presennol er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu’r angen i gefnogi darpariaeth newydd a phresennol i fodloni’r safonau gofynnol cenedlaethol presennol a gofynion rhaglenni perthnasol.

Mae strategaeth ar waith ar gyfer datblygu’r gweithlu ym Mlaenau Gwent sy’n cydnabod bod yn rhaid i ni barhau i ‘dyfu’ ein hymarferwyr blynyddoedd cynnar ein hunain. Ddeunaw mlynedd yn ôl, datblygwyd strategaeth i gynnig hyfforddiant chwarae plant rhagarweiniol i gymuned Blaenau Gwent ar lefel Rhwydwaith y Coleg Agored, a fyddai’n cael ei gwblhau dros ddwy awr yr wythnos am ddeg wythnos. Gallai hyn wedyn arwain at gyrsiau NVQ Lefel 2 a 3 mewn Dysgu a Datblygiad Gofal Plant (yn rhan o’r cwrs Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant erbyn hyn). Gall y gweithlu gofal plant fod yn ansefydlog iawn, gyda llai yn ymuno â’r gweithlu nag sy’n gadael. Gall y ffactorau allweddol sy’n cyfrannu at yr ansefydlogrwydd hwn fod yn gyflog isel, gofynion gwaith, nodweddion demograffig, ac, ym Mlaenau Gwent yn benodol, cyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus. Mae ein hymarferwyr gofal plant yn aml yn gadael gofal plant i weithio mewn rolau cymorth i deuluoedd â chyflogau uwch yn y sectorau addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, sy’n dda i’r economi, y sector gofal cymdeithasol a’r unigolyn ond sy’n cyfrannu’n fawr at ansefydlogrwydd y sector, a dyna pam mae’n rhaid inni ddal i ddenu myfyrwyr mewn ysgolion uwchradd


a'r gymuned i fynd i faes gofal plant. Mae cyrsiau gradd blynyddoedd cynnar wedi'u hariannu'n ddiweddar ar gyfer cydweithwyr o fewn tîm y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae.

**Y Gweithlu o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent**

Mae gweithlu'r Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn cynnwys 236 o ymarferwyr gofal plant, gyda 98% o'r rheini'n fenywod. Bu rhywfaint o amrywiad ym maint y gweithlu, gyda chynnydd o 6% (ym mis Mawrth 2022) sy'n cael ei briodoli i'r ddwy feithrinfa ddydd newydd sydd wedi agor yn y ddwy flynedd ddiwethaf ynghyd ag un ddarpariaeth cyn ysgol newydd. Mae'r agoriadau hyn wedi lliniaru'r colledion dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gyda naw o warchodwyr plant yn dadgofrestru a phedwar clwb ar ôl yr ysgol ac un ddarpariaeth cyn ysgol yn cau.

**Iaith y Gweithlu**

Mae mwyafrif y gweithlu yn defnyddio Saesneg fel eu hiaith gyntaf, gyda dau leoliad, Cylch Meithrin Helyg Bychan a Chylch Meithrin Gwdihŵ, yn nodi eu bod yn defnyddio Cymraeg rhugl. O fewn y gweithlu cyfan, mae 3% yn siaradwyr Cymraeg rhugl a 97% yn datgan mai Saesneg yw eu hiaith gyntaf.



**Recriwtio a Chadw**


Mae tîm y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae yn parhau i weithio mewn partneriaeth â CWLWM, y coleg lleol, ysgolion, Canolfan Byd Gwaith, Cymunedau am Waith a rhaglenni gwaith eraill i hyrwyddo gofal plant a chwarae yn y blynyddoedd cynnar ac i annog pobl i chwilio am yrfa yn y sector gofal plant. Mae darparwyr gofal plant yn y fwrdeistref wedi sôn am eu pryderon o ran dod o hyd i staff cymwys addas i'w recriwtio. Mae hyn wedi'i effeithio'n sylweddol oherwydd COVID-19, gydag ymarferwyr yn ôl pob sôn yn gadael y sector i weithio yn rhywle arall a gostyngiad yn nifer y myfyrwyr newydd sy'n cofrestru ar gyrsiau gofal plant yn lleol yn y ddwy flynedd ddiwethaf.

**Yr Effaith ar Gymwysterau Cenedlaethol a'r Gweithlu oherwydd COVID-19**

Bu gostyngiad nodedig yn nifer y myfyrwyr sy'n cofrestru ar gymwysterau gofal plant oherwydd y cyfyngiadau a achosir gan COVID-19. Yn ogystal, bu gostyngiad hefyd yn nifer yr ymarferwyr gofal plant sy'n manteisio ar astudiaeth bellach o ofal plant am y rhesymau a ganlyn: lleoliadau gwaith nad oedd caniatâd iddynt ddigwydd, lleoliadau'n cau dros dro a myfyrwyr yn methu symud ymlaen ag adrannau cymhwysedd/tystiolaeth eu cymhwyster, swigod o fewn y ddarpariaeth gofal plant, a hefyd llawer o'r gweithlu gofal plant ar ffyrlo.

**Cymwysterau a'r Gweithlu Gofal Plant**

Ym Mwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, mae'r ystadegau'n dangos, o'r 236 aelod o'r gweithlu gofal plant, fod 77% yn meddu ar gymhwyster gofal plant Lefel 3 a 25% o'r gweithlu yn meddu ar gymhwyster gofal plant Lefel 5. Mae dadansoddiad pellach o'r ystadegau isod yn dangos canrannau'r cymhwyster uchaf sydd gan y 236 aelod o'r gweithlu gofal plant:




**Hyfforddiant Gorfodol a Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)**

Mae rhai anghenion hyfforddi a chymwysterau clir y mae'n rhaid eu hystyried wrth gynllunio'r rhaglen hyfforddiant a chymwysterau ar gyfer 2022/23, a'r tair blynedd ddilynol. Er enghraifft, yn ystod y pum mlynedd nesaf byddwn yn ymroi i gyflwyno hyfforddiant cwricwlwm newydd, dysgu sylfaen ac anghenion ychwanegol. Bydd gallu cynnig hyfforddiant perthnasol o ansawdd uchel, yn ogystal â hyfforddiant newydd gan weithwyr proffesiynol blaenllaw yn y sector, yn sicrhau bod y plant sy'n defnyddio gwasanaeth blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yn profi'r canlyniadau gorau posibl.

Mae'r tîm yn cydlynu rhaglen hyfforddiant gorfodol a DPP gadarn ar gyfer yr holl unigolion sy'n gweithio yn y sector gofal plant, blynyddoedd cynnar a chwarae yn y fwrdeistref. Cynigir hyfforddiant mewn rhai pynciau ar wahanol lefelau. Mae cyrsiau diogelu Lefel 1, 2 a 3 wedi'u

hariannu’n llawn (gan adlewyrchu’r pwysigrwydd a roddwn ar safonau uchel mewn arferion diogelu), mae’r holl hyfforddiant DPP a ddarperir yn fewnol yn cael ei gynnig ar gyfradd â chymhorthdal o £5.00 y lle, a chynigir yr holl hyfforddiant allanol arall ar sail adennill costau llawn.

Mae’r cyrsiau hyfforddiant gorfodol canlynol yn cael eu darparu’n flynyddol, naill ai gan dîm y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae neu drwy gael eu tendro’n allanol drwy ein hadran Datblygu’r Gweithlu, ac mae’n ofynnol eu hadnewyddu bob tair blynedd:

Diogelu Lefel 1 a 2

Hylendid Bwyd Sylfaenol Lefel 2

Cymorth Cyntaf Pediatrig

Anghenion Dysgu Ychwanegol

**Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)**

Yn flynyddol, caiff rhaglen hyfforddi lawn ei chynllunio, yn dilyn mewnbwn gan gydweithwyr fel yr amlinellwyd uchod. Cyn COVID-19, cynigiwyd pob cwrs hyfforddi wyneb yn wyneb ond, ers 2020, mae hyfforddiant bellach yn cael ei ddarparu ar-lein hefyd. Mae cyrsiau DPP a ddarperir o 2017-22 yn cynnwys:

Esgeulustod Lefel 3

Awtistiaeth

Chwarae trwy’r Tymhorau

Tanau Gwersyll yn Llosgi

Cynllunio

Darnau Rhydd

Y Plentyn sy’n Datblygu

Y Gweithiwr Allweddol i Lwyddiant

Elklan

Cam-drin Domestig Lefel 3

Chwarae â Blociau

Signalong

Dysgu yn yr Awyr Agored

Arsylwi

Risgiau a Manteision

Crefftau Coetir

Clinig Arweinyddiaeth

Ysgogi Staff

| | |
|---|---|
| Recriwtio a Chadw | Diogelwch ar y Rhyngrwyd |
| Sgemâu | Basgedi Trysor |
| Gwirfoddolwyr mewn Chwarae | Diogelwch yn yr Haul |
| Gwella Gweithgarwch Corfforol trwy Chwarae | |

**Hyfforddiant y Tîm Ymyrraeth Cyfathrebu (ComIT)**

Mae'r Tîm Ymyrraeth Cyfathrebu (ComIT) yn wasanaeth a sefydlwyd ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Nod ComIT yw diwallu anghenion ychwanegol plant a phobl ifanc sydd â diagnosis anghlinigol ac angen sylfaenol o ran lleferydd, iaith a chyfathrebu pan fo'r angen hwnnw'n effeithio'n ddifrifol ar ddysgu'r plentyn).

Mae ComIT wedi cynhyrchu canllawiau a hyfforddiant ar gyfer ymarferwyr sy'n darparu addysg plant yn y blynyddoedd cynnar a gofal i blant rhwng 0 a 3 oed 11 mis. Ei nod yw datblygu gwybodaeth ymarferwyr am ddatblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu, a hyder a sgiliau ymarferwyr, i nodi a diwallu anghenion plant yn y lleoliad.

Er bod gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent weithlu blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae â chymwysterau da, mae gennym ymarferwyr gofal plant o hyd a hoffai wella eu cymwysterau trwy gofrestru ar gyrsiau lefel uwch. Yn ogystal, rydym yn parhau i gael unigolion sydd â diddordeb mewn bod yn warchodwyr plant cofrestredig ac yn eu cyfeirio'n uniongyrchol at PACEY i gofrestru ar y cwrs gwarchod plant a'u cefnogi ar ôl iddynt gymhwyso.

## 14) Effaith Covid

Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith enfawr ar bob agwedd ar gymdeithas yng Nghymru, ac mae wedi cyffwrdd â phob teulu, cymuned, sefydliad a busnes. O ran yr effaith y mae wedi'i chael ar y sector gofal plant, mae dau brif faes i'w hystyried. Yn gyntaf, rôl hollbwysig gofal plant yn ymateb pandemig y llywodraeth ac, yn ail, yr effaith y mae'r pandemig wedi'i chael ar leoliadau fel sefydliadau/busnesau a'r effaith ddilynol ar deuluoedd a chymunedau.

O ddyddiau cynnar y pandemig, roedd y rôl strategol yr oedd lleoliadau gofal plant i'w chwarae yn ymateb y llywodraeth i'r pandemig yn amlwg iawn. Roedd yr angen i gadw gweithwyr allweddol ym meysydd y GIG, gofal cymdeithasol a gwasanaethau golau glas mewn gwaith, ynghyd â gweithwyr hanfodol eraill a nodwyd, yn hollbwysig ac, i rieni sy'n gweithio, roedd hynny'n golygu bod angen i ofal plant aros ar agor er mwyn galluogi'r gweithwyr hynny i weithio. Roedd y darlun ar gyfer lleoliadau yn nyddiau cynnar y pandemig yn newid yn gyflym, gyda darparwyr yn gwneud penderfyniadau ynghylch a oedd agor yn opsiwn ymarferol a diogel iddynt. Yn ystod y pandemig, arhosodd nifer sylweddol o ddarparwyr ym Mlaenau Gwent ar agor i ddarparu gwasanaeth i blant gweithwyr allweddol a phlant agored i niwed. Yn ystod y cyfyngiadau symud cyntaf, dim ond 33.9% o wasanaethau a gaeodd, sy'n cynrychioli 42.8% o leoedd gofal plant yn gyfan gwbl. Roedd tîm yr awdurdod lleol hefyd yn gallu rhoi trefniadau ar waith i sicrhau y gellid darparu gwasanaeth i blant gweithwyr allweddol os oedd ei angen a phlant agored i niwed. Addasodd tîm Dechrau'n Deg un o'i leoliadau o fewn wythnos yn benodol i gefnogi plant agored i niwed, gan gwblhau amrywiad ar gyfer Arolygiaeth Gofal Cymru i'w alluogi i gynnig darpariaeth estynedig i ystod oedran ehangach er mwyn cynnwys grwpiau o frodyr a chwiorydd. Bu tîm Dechrau'n Deg hefyd yn gweithio'n agos gyda thimau plant y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i helpu i leoli plant nad oeddent yn gallu defnyddio'r ganolfan wedi'i haddasu. Sefydlodd tîm y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae Gynllun Cymorth Gofal Plant drwy gyfnod y Coronafeirws Llywodraeth Cymru o fewn wythnosau ar ddechrau'r pandemig i sicrhau y cafodd lleoedd eu canfod ar gyfer plant gweithwyr allweddol a phlant agored i niwed, a darparwyd cyllid yn gyflym i ddarparwyr a oedd yn darparu'r gwasanaethau angenrheidiol hyn.

Ailagorodd darparwyr a oedd wedi cau yn y dyddiau cynnar i raddau helaeth o ddiwedd mis Mehefin 2020 a gwnaethant barhau ar agor (ac eithrio achosion unigol ac ysbeidiol o gau yn sgil Covid), ac eithrio'r rhan fwyaf o ddarpariaeth ar ôl yr ysgol, yr effeithiwyd arni gan bryderon ynghylch y defnydd o adeiladau ysgol a chymysgu swigod a chau ysgolion.

Profwyd lefel yr ymrwymiad a'r hyblygrwydd o fewn y sector ymhellach mewn ymateb i drefniadau gwyliau haf 2020 ar gyfer plant agored i niwed, oherwydd, lle'r oedd lleoliadau'n cyfyngu ar nifer eu plant ac yn gweithredu ar sail 'swigen', roedd pryderon ynghylch dod o hyd i

leoliadau ar gyfer plant agored i niwed. Ymatebodd y sector lleol yn wych, gyda darparwyr yn mynd gam ymhellach i ddarparu ar gyfer y plant, gan gynnwys creu lleoliadau newydd / ehangu'n gyflym iawn i sicrhau eu bod yn gallu cynnig gwasanaethau i'r plant hynny oedd eu hangen.

Mae sawl cynllun i gefnogi lleoliadau'n ariannol wedi dod i'r amlwg yn ystod y pandemig, gan gynnwys y Gronfa Cadernid Economaidd, y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws, y Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig drwy gyfnod Coronafeirws, y Grant Darparwr Gofal Plant, grantiau Covid cyfalaf bach y Cynnig Gofal Plant, grantiau Cwtch (cynaliadwyedd), a chynlluniau eraill sy'n ymwneud ag addysg. Er y bu heriau o ran sefydlu systemau gweinyddol yn gyflym i ddarparu'r grantiau hyn, cawsant eu darparu'n llwyddiannus mewn partneriaeth â chydweithwyr awdurdodau lleol eraill a sefydliadau cymorth ymbarél a chyda'r darparwyr gofal plant eu hunain. Mae dros £547,000 wedi'i ddosbarthu i leoliadau yn ystod 2021/22, ac mae gweinyddu'r grantiau hyn wedi cael effaith aruthrol ar waith tîm y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae.


Roedd cau gofal plant i blant heblaw am blant gweithwyr allweddol a phlant agored i niwed yn golygu bod angen inni adolygu ein cymorth i blant ag ADY a phlant sy'n mynychu gofal plant drwy ein cynlluniau lleoedd â chymorth nad oeddent yn gallu cael mynediad at eu lle gofal plant. Rhoddwyd cynlluniau ar waith i gynnig gwasanaethau amgen, gyda phecynnau adnoddau yn cael eu dosbarthu i gartrefi plant a chyswllt rheolaidd yn cael ei gynnal gyda gweithwyr proffesiynol o fewn tîm y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae i gefnogi teuluoedd i barhau â gweithgareddau chwarae, dysgu a datblygu yn y cartref.

Ar ôl cyfnod o atal dros dro yn ystod tymor y gwanwyn a thymor yr haf 2020, ailddechreuwyd y Cynnig Gofal Plant yn ystod mis Awst 2020 a chyflwynodd her enfawr i dîm yr awdurdod lleol a darparwyr gofal plant, oherwydd yr amserlen fyrrach ar gyfer ymdrin, i bob pwrpas, â dwywaith cymaint o geisiadau. Roedd newidiadau i'r canllawiau cymhwysedd, yr oedd angen eu deall a'u gweithredu, yn her bellach. Roedd ymdrech enfawr gan yr awdurdod lleol a darparwyr gofal plant yn golygu bod y cynllun yn weithredol unwaith eto o fis Medi 2020.

Ni ellir gorbwysleisio lefel yr her i ddarparwyr gofal plant a'r timau sy'n cefnogi darparwyr, yn yr awdurdod lleol ac mewn sefydliadau eraill, yn ystod 2020-22. Mae anawsterau gyda staffio a chau yn sgil Covid wedi bod yn arbennig o anodd i lawer o ddarparwyr, a mynegwyd pryderon gwirioneddol ynghylch cynaliadwyedd. Hyd at y dyddiad y casglwyd data'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth, dim ond tri darparwr yr oeddem wedi'u colli ym Mlaenau Gwent, sef un darparwr gofal dydd llawn a dau glwb ar ôl yr ysgol (un cofrestredig, un wedi'i eithrio). Yn anffodus, ers hynny mae rhagor o fusnesau wedi cau, gyda dau glwb ar ôl yr ysgol arall yn cau a phedwar gwarchodwr plant arall yn penderfynu rhoi'r ffidil yn y to. Mae adborth yn awgrymu, er bod cynaliadwyedd yn ystyriaeth allweddol, bod materion eraill, yn arbennig anawsterau wrth recriwtio staff ac unigolion sy'n dewis gyrfa wahanol, hefyd wedi chwarae rhan fawr mewn penderfyniadau. Bu problemau penodol yn y sector ar ôl yr ysgol, y mae llawer ohono wedi'i gydleoli ar safleoedd ysgolion ac yn amodol ar ystyriaethau ychwanegol o ran


ailagor oherwydd pryderon ysgolion ynghylch mynediad a rheoli swigod. Er gwaethaf llawer o gefnogaeth i ddatblygu asesiadau risg i ganiatáu ar gyfer ailagor yn ddiogel, mae rhai clybiau wedi cau, gan nodi materion gyda staffio fel y prif achos.

Cyflwynwyd arolwg i ddarparwyr yng ngwanwyn 2022 ac adroddwyd ar rai o'r materion allweddol yr oeddent wedi bod yn eu hwynebu. Pryderon ynghylch ansawdd a diogelwch y ddarpariaeth oedd y prif bryderon yn ystod y pandemig a chaiff hyn ei gadarnhau gan dystiolaeth anecdotaidd a gasglwyd ar gyfer Llywodraeth Cymru yn ystod gwanwyn 2021, pan oedd darparwyr yn teimlo bod y cyfyngiadau'n effeithio'n fawr ar arferion.




O ran pryderon wrth symud ymlaen, y prif bryderon a adroddwyd oedd costau parhaus yn gysylltiedig â Covid, nifer y plant sy'n mynychu, a chynaliadwyedd ariannol. Serch hynny, teimlai pedwar ar bymtheg o bob ugain o ddarparwyr a ymatebodd y byddent yn dal i weithredu mewn pum mlynedd. Roedd 50% o ddarparwyr yn cynyddu eu ffioedd ac roedd 40% yn ei ystyried.

Pan ofynnwyd am syniadau ar gyfer gwella ar gyfer gwahanol grwpiau, awgrymwyd mynediad ychwanegol i Dechrau'n Deg gan y mwyafrif llethol – gweler y cwmwl geiriau isod.




Awgrymwyd hefyd gefnogaeth ar gyfer hyfforddiant, cefnogaeth a hyfforddiant mewn anghenion dysgu ychwanegol, a gwell cyfathrebu. Roedd pryder hefyd ynghylch maint y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, gyda 45% o ymatebwyr yn teimlo nad oedd digon o ddarpariaeth, a gwnaed awgrymiadau ynghylch cynyddu cyfleoedd hyfforddi Cymraeg a darparu canllawiau iaith.

Mae tîm y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae wedi gwneud newidiadau sylweddol i'r ffordd y mae wedi gweithio gyda lleoliadau dros gyfnod y pandemig. Roedd canllawiau yn atal ymweliadau wyneb yn wyneb â lleoliadau am dros flwyddyn ac, am gyfnod, roedd cyfyngiadau yn ei gwneud yn amhosibl neu'n anodd dod â phobl ynghyd i fynychu hyfforddiant. Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith wedi symud i gyswllt ar-lein a thros y ffôn, a gwneir defnydd gwych o Microsoft Teams i gadw mewn cysylltiad â lleoliadau. Addaswyd ein rhaglen hyfforddi yn ystod 20/21 er mwyn caniatáu i'r rhan fwyaf o'r hyfforddiant gael ei gynnal ar-lein ac arhosodd mwyafrif yr hyfforddiant yn 21/22 ar-lein hefyd. Mae hyn wedi bod o fudd i leoliadau a staff sy'n gweithio ynddynt trwy leihau amser teithio i fynychu cyrsiau ac, mewn rhai achosion, mae hefyd wedi caniatáu i grwpiau mwy fynychu hyfforddiant. Bwriedir cael rhaglen gymysg ar gyfer 22/23, gan y bydd hyn yn ein galluogi i gynnig yr hyfforddiant ymarferol ochr yn ochr â hyfforddiant sy'n addas ar gyfer ei gyflwyno ar-lein.

Mae cynnydd yn erbyn camau gweithredu i fynd i'r afael â bylchau a nodwyd yn yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant diwethaf ac adroddiadau cynnydd dilynol wedi'i effeithio'n sylweddol gan bandemig Covid, gyda llawer o gamau gweithredu yn cael eu symud ymlaen i'r cynllun gweithredu sy'n gysylltiedig â'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant cyfredol hwn. Mae prif ffocws ein gwaith fel tîm awdurdod lleol yn ystod y

flwyddyn ddiwethaf wedi bod ar gefnogi ac arwain y sector gofal plant i aros yn agored ac aros yn gynaliadwy, a chefnogi teuluoedd sydd angen a/neu sy’n defnyddio gofal plant.

O ran niferoedd gofal plant cyffredinol, bu gostyngiad yn ystod 2020-21, gyda nifer y lleoedd gofal plant yn gostwng o 1,403 o leoedd i 1,335 o leoedd.

Yn 2018, cyflwynwyd cynigion i Lywodraeth Cymru o dan raglen gyfalaf y Cynnig Gofal Plant i ddatblygu lleoedd gofal plant newydd i gynyddu capasiti mewn ardaloedd lle nad oedd cyflenwad digonol i gynnal lleoedd ar gyfer y Cynnig Gofal Plant. Cymeradwywyd pum prosiect, gan gynnwys un cynllun grant cyfalaf bach ar gyfer darparwyr lleol. Er bod y grant a gynigir o dan y cynllun grantiau bach wedi’i ddefnyddio’n llawn yn 19/20, 20/21 a 21/2, mae oedi yn y prosiectau cyfalaf mwy wedi’i achosi gan y pandemig ac mae’r cynnydd wedi bod yn llawer arafach na’r disgwyl. Yn y cyfnod interim, tynnwyd un o’r cynigion yn ôl oherwydd y bu darparwr newydd yn agor cyfleuster gofal dydd llawn yn yr ardal lle’r oeddem wedi cynnig adeiladu canolfan gofal dydd llawn. Mae’r tri phrosiect sy’n weddill (estyn lleoliad gofal plant Dechrau’n Deg Swffryd, estyn gofal plant Canolfan Plant Integredig Blaenau, a chanolfan gofal dydd llawn newydd yng Nglynebwy) i gyd yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd ac mae prosiect ychwanegol wedi’i gymeradwyo dan y grant cyfrwng Cymraeg i gynnwys cylch meithrin yn yr ysgol eginblanhigyn cyfrwng Cymraeg newydd sydd yn yr arfaeth yn Nhredegar.

## 15) Dadansoddiad o'r Bylchau

Bydd y dadansoddiad hwn yn ystyried y cyflenwad a'r galw am ofal plant ac yn crynhoi'r bylchau yn y ddarpariaeth, gan ganolbwyntio'n benodol ar y meysydd canlynol:

- Darpariaeth gofal plant i blant rhieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol
- Darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg
- Darpariaeth gofal plant ar gyfer gwahanol gategorïau iaith

Bydd y dadansoddiad hefyd yn amlinellu anghenion gofal plant nad ydynt yn cael eu diwallu yn ardal yr awdurdod lleol, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â'r canlynol:

- Mathau o ofal plant sydd ar gael
- Oedran y plant y mae gofal plant ar gael iddynt
- Fforddiadwyedd gofal plant
- Amseroedd y mae gofal plant ar gael
- Lleoliad y gofal plant

**Darpariaeth gofal plant i blant rhieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol / Amseroedd y mae gofal plant ar gael**

Ychydig iawn o ofal plant ffurfiol sydd ar gael i rieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol. Y cynharaf y bydd unrhyw ddarparwr yn agor yw 6am a'r hwyraf y bydd yn cau yw 6.30pm. Mae mwyafrif y darparwyr yn cynnig amser cychwyn o rhwng 7am a 9am. Dim ond un darparwr (meithrinfa ddydd) sy'n cynnig gofal plant ar ddydd Sadwrn ac nid oes darpariaeth ar gael ar ddydd Sul. Er bod yr arolwg o alw gan rieni yn awgrymu bod rhai rhieni'n cael trafferth gyda gofal plant ar oriau annodweddiadol, mae'n bwysig cydnabod bod maint y sampl yn eithaf bach mewn gwirionedd. Fodd bynnag, mae proffil cyflogaeth Blaenau Gwent yn dangos cyfran sylweddol uwch o bobl yn gweithio yn y sector gweithgynhyrchu, gofal, hamdden a gwasanaethau na chyfartaledd Cymru. Dylai hyn awgrymu galw uwch am ofal plant hyblyg gan fod y galwedigaethau hyn yn aml yn gofyn am batrymau gweithio shifft a phenwythnos. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod nifer sylweddol o rieni/gofalwyr ym Mlaenau Gwent o hyd sy'n dibynnu ar deulu a ffrindiau i ofalu am eu plant a hefyd rhywfaint o dystiolaeth bod rhieni'n

cydlynu eu horiau gwaith i ofalu am blant rhyngddynt. Gan fod cost gofal plant wedi’i nodi fel un o’r prif rwystrau i ddefnyddio gofal plant, gallai hyn gyfyngu ar y nifer sy’n manteisio ar ofal plant hyblyg lle gellir ei gynnig.

Mae’n rhaid i bob darparwr ystyried y costau staffio a gorbenion ychwanegol y byddent yn eu hysgwyddo wrth ymestyn oriau agor a chyferbynnu’r rhain â'r busnes ychwanegol posibl y gallai’r oriau estynedig ei ddenu. Gallai darparwyr newydd, yn enwedig gwarchodwyr plant (y gallai eu gorbenion fod yn llai na darpariaeth mewn lleoliad), ystyried cynnig oriau annodweddiadol fel pwynt gwerthu unigryw.

**Darpariaeth cyfrwng Cymraeg**

Mae diffyg amlwg yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ym Mlaenau Gwent, gyda dwy ardal cynllunio cymunedol, Sirhywi ac Ebwy Fawr, heb unrhyw ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o gwbl ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae’r ardaloedd hynny eisoes wedi’u nodi yn yr asesiad blaenorol ac mae adroddiadau dilynol a chynlluniau adeiladu cyfalaf yn eu lle i ddod ag opsiynau gofal dydd llawn i’r ddwy ardal. Roedd yr arolwg rhieni a gynhaliwyd yn nodi bod rhwystrau i gael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cynnwys pellter ac argaeledd a nodwyd rhywfaint o alw am ofal plant cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol gan 26 o rieni/gofalwyr a oedd naill ai eisiau neu a fyddai’n ystyried gofal plant cyfrwng Cymraeg. Gallai darpariaeth fwy lleol, sy’n cynnig oriau agor ehangach, annog y rhieni hynny i fanteisio ar opsiynau cyfrwng Cymraeg pan fo angen. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw warchodwyr plant yn gweithredu yn Gymraeg, er bod rhai yn cynnig gwasanaeth yn y Gymraeg a’r Saesneg. Dim ond gwarchodwyr plant cyfrwng Saesneg sydd yn Sirhywi, sy’n cynnig dewis mwy cyfyngol i rieni/gofalwyr yn yr ardal honno. Mae darparwyr cyfrwng Cymraeg presennol yng Ngogledd a De Ebwy Fach ond yn cynnig gofal plant i blant dwy i bedair oed ac am oriau cyfyngedig yn ystod y dydd. Ni chynigir darpariaeth ar ôl yr ysgol nac yn ystod y gwyliau yn Gymraeg.

Mae cylch meithrin wedi’i gofrestru yn Sirhywi, ond mae’r ddarpariaeth yn parhau heb ei staffio ac ar gau ar hyn o bryd. Byddai’r awdurdod lleol yn croesawu bod y ddarpariaeth honno’n agor yn fuan er mwyn dechrau cynyddu’r galw am yr ysgol eginblanhigyn newydd. Mae sesiynau cyfrwng Cymraeg wedi’u hymgorffori i ddarpariaeth meithrinfa ddydd cyfrwng Saesneg yn Ebwy Fawr, gan ehangu’r dewis yn yr ardal honno. Byddai ymestyn y peilot hwn i feithrinfeydd dydd cyfrwng Saesneg eraill yn rhywbeth i’w groesawu’n fawr. Mae’r angen i ddatblygu gwasanaethau, yn enwedig yn wyneb yr ysgol eginblanhigyn Gymraeg newydd sydd i’w hadeiladu yn Nhredegar, yn ddymunol. Bydd yr opsiynau gofal dydd llawn newydd yn helpu i lenwi rhai o’r bylchau hyn a nodwyd, ond mae’r angen i ymchwilio i recriwtio gwarchodwyr plant sy’n siarad Cymraeg, neu uwchsgilio gwarchodwyr plant, yn enwedig yn ardal Sirhywi, yn amlwg. Mae angen edrych ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar ôl yr ysgol y tu hwnt i’r datblygiadau newydd yn Ebwy Fawr a Sirhywi hefyd i sicrhau bod mynediad i blant sy’n byw yng Ngogledd a De Ebwy Fach a/neu’n mynychu ysgol neu addysg gynnar yn yr ardaloedd hynny.

**Darpariaeth gofal plant ar gyfer gwahanol gategorïau iaith**

Mae nifer fach iawn o deuluoedd o leiafrifoedd ethnig ym Mlaenau Gwent ac nid oes tystiolaeth uniongyrchol i awgrymu bod angen darparu gofal plant mewn ieithoedd eraill ar hyn o bryd. Mae pob lleoliad yn cael ei annog a'i gefnogi gan yr awdurdod lleol i fod yn gwbl gynhwysol ac i barchu a dathlu amrywiaeth.

**Mathau o ofal plant sydd ar gael / Lleoliad y gofal plant**

Er bod y cyflenwad gofal plant yn gyffredinol yn bodloni'r galw ym Mlaenau Gwent a bod cynnydd sylweddol wedi bod ers yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant diwethaf, mae rhai bylchau o hyd yn y ddarpariaeth mewn perthynas â mathau o ofal plant a fydd yn cyfyngu ar ddewis rhieni. Mae lefelau isel o warchodwyr plant yn ardaloedd Sirhywi ac Ebwy Fawr, yn enwedig yn Sirhywi, gyda dim ond pedwar gwarchodwr plant, sy'n cyfyngu ar ddewis rhieni. Mae dosbarthiad da o ddarparwyr gofal dydd sesiynol ar draws yr holl ardaloedd cynllunio cymunedol (er bod llawer bellach wedi'u cofrestru fel darparwyr gofal dydd llawn) a bydd cynlluniau i agor cyfleusterau gofal dydd llawn newydd yn Ebwy Fawr a Sirhywi yn gwella'r ddarpariaeth a dewis presennol.

Mae gostyngiad sylweddol yn nifer y lleoedd gofal plant sydd ar gael yn ystod gwyliau'r ysgol ar draws pob ardal cynllunio cymunedol, ond nid oes tystiolaeth o'r arolwg rhieni/gofalwyr nac yng nghofnodion y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i awgrymu bod hyn yn fwlch i rieni/gofalwyr.

Mae data arolwg rhieni yn awgrymu bod rhai teuluoedd yn cael anhawster dod o hyd i ofal plant addas ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion addysgol arbennig. Mae ymatebion yn yr arolwg darparwyr yn nodi y gellid gwneud mwy i'w helpu i fod yn fwy cynhwysol. Er bod pob darparwr yn cael ei annog i fod yn gynhwysol, mae angen gwneud gwaith i asesu beth sydd ei angen ar ddarparwyr ac mae angen cynnig hyfforddiant pellach i ddarparwyr.

**Oedran y plant y mae gofal plant ar gael iddynt**

Mae gofal plant ar gael i blant o bob oed ym mhob ardal cynllunio cymunedol, gyda meithrinfeydd dydd a gwarchodwyr plant yn cynnig gofal i'r ystod oedran ehangaf. Mae llawer mwy o leoedd a mathau o ofal plant ar gael i blant 2–4 oed ym Mlaenau Gwent oherwydd nifer y lleoedd gofal dydd sesiynol a gynigir. Er bod gofal plant ar gael i blant hyd at 17 oed, ychydig iawn o blant sy'n mynychu gofal plant ar ôl 11 oed. Roedd rhywfaint o dystiolaeth drwy'r arolwg rhieni i awgrymu bod rhai rhieni'n ei chael hi'n anoddach dod o hyd i ofal plant addas ar gyfer plant hŷn. Gallai darpariaeth mewn ysgolion lenwi'r bwlch hwn, ond bydd angen profi a yw hyn yn ymarferol i sicrhau bod unrhyw ddarpariaeth newydd a sefydlir yn debygol o lwyddo.

**Fforddiadwyedd gofal plant**

Mae llawer o dystiolaeth i awgrymu bod fforddiadwyedd yn fater allweddol i rieni. Mae costau/fforddiadwyedd yn cael eu hamlygu'n gyson fel pryder gan rieni/gofalwyr, er gwaethaf y rhaglenni sy'n cynnig gofal plant wedi'i ariannu (Dechrau'n Deg a'r Cynnig Gofal Plant). Bu cynnydd yn nifer y darparwyr sydd wedi'u cofrestru i ddarparu Dechrau'n Deg ym Mlaenau Gwent ac mae bron pob darparwr wedi'i gofrestru i gyflwyno'r Cynnig Gofal Plant. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd i rieni/gofalwyr sy'n gweithio arbed arian ar gostau gofal plant. Nododd rhieni/gofalwyr a ymatebodd i'r arolwg eu bod yn cael cymorth arall gyda chostau gofal plant, sef yr elfen gofal plant o Gredydau Treth Gwaith / Credyd Cynhwysol, gofal plant di-dreth, talebau gofal plant a grantiau myfyrwyr. Gydag enillion gweithwyr Blaenau Gwent yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru, efallai nad yw hyn yn syndod, yn enwedig ar hyn o bryd, gyda'r argyfwng costau byw yn effeithio ar y rhan fwyaf o deuluoedd. Roedd dros hanner (28) y darparwyr gofal plant yn derbyn taliadau gofal plant di-dreth neu dalebau gofal plant gan rieni/gofalwyr yn haf 2021. Mae pob meithrinfa ddydd yn derbyn y ddau gynllun hynny ar hyn o bryd, yn ogystal â mwyafrif y gwarchodwyr plant (mae 20 yn derbyn gofal plant di-dreth a 25 yn derbyn talebau gofal plant). Fodd bynnag, nid yw chwech o bob 14 o gylchoedd chwarae yn derbyn y naill na'r llall o'r cynlluniau hynny, ac mae'r unig glwb ar ôl yr ysgol a gwyliau pwrpasol yn derbyn gofal plant di-dreth ond nid talebau gofal plant.

Nid yw'n syndod, ond yn peri peth pryder, bod hanner yr holl ddarparwyr gofal plant a ymatebodd i'n harolwg yn bwriadu cynyddu eu prisiau eleni. Er bod angen iddynt wneud hynny, er mwyn parhau i fod yn gynaliadwy wrth symud ymlaen, bydd costau ychwanegol yn ddiamau yn anodd i lawer o deuluoedd. Bydd ehangu rhaglen Dechrau'n Deg i bob plentyn dwy oed yn cael ei groesawu gan bob teulu, ond teuluoedd sy'n gweithio sy'n debygol o elwa fwyaf gan y dylai leihau eu costau gofal plant yn gyffredinol neu ganiatáu iddynt ddefnyddio gofal plant am y tro cyntaf. Mae ehangu'r Cynnig Gofal Plant i gynnwys rhieni dan hyfforddiant hefyd yn gymorth i'w groesawu i rieni sydd am uwchsgilio ac ymuno â'r gweithlu neu ailymuno â hi. Mae angen parhau i hyrwyddo pob math o gymorth ariannol i rieni, yn enwedig wrth i raglenni gael eu hehangu a'u hymestyn, i sicrhau nad oes neb yn colli allan ar ofal plant wedi'i ariannu y maent yn gymwys i'w gael.

## 16) Cynllun Gweithredu

| Blaenoriaeth | Camau Gweithredu | Cerrig Milltir | Amserlen |
|---|---|---|---|
| 1. Cwblhau holl brosiectau presennol y rhaglen gyfalaf a datblygu cynlluniau ychwanegol mewn ymateb i fylchau a nodwyd | 1a. Rhaglen gyfalaf y Cynnig Gofal Plant: | | |
| | • Gofal Dydd i Deuluoedd Glyncoed | Gwerthuso'r tendr ar gyfer gwaith adeiladu | Gwanwyn 2022 |
| | | Cynnal y gwaith adeiladu | Haf 2022 |
| | | Tendr ar gyfer darparwr gofal plant | Gwanwyn 2023 |
| | | Agor y ddarpariaeth newydd | Gwanwyn 2024 |
| | • Estyniad i Ganolfan Plant Integredig Blaenau | Cwblhau'r dyluniad | Haf 2022 |
| | | Cyflwyno'r cais cynllunio | Haf 2022 |
| | | Cyhoeddi'r tendr ar gyfer adeiladu | Hydref 2022 |
| | | Cynnal y gwaith adeiladu | Gwanwyn 2023 |
| | | Ehangu'r lleoliad gofal plant | Haf 2023 |
| | 1b. Rhaglen gyfalaf Dechrau'n Deg: | | |
| | • Estyniad i Hwb Swffryd | Dechrau'r gwaith adeiladu | Haf 2022 |
| | | Cyhoeddi tendr ar gyfer darparwr gofal plant | Haf 2022 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Dyfarnu'r tendr gofal plant<br><br>Cwblhau'r gwaith adeiladu<br><br>Agor y lleoliad gofal plant | Haf 2022<br><br>Gwanwyn 2023<br><br>Gwanwyn 2023 |
| | 1c. Grant addysg cyfrwng Cymraeg:<br>• Darpariaeth cylch meithrin yn yr ysgol eginblanhigyn newydd yn Nhredegar | Cyflwyno cais cynllunio<br><br>Cyhoeddi tendr ar gyfer y gwaith adeiladu a chwblhau gwerthusiadau<br><br>Dechrau'r gwaith adeiladu<br><br>Cyhoeddi tendr gofal plant<br><br>Agor yr ysgol/lleoliad | Haf 2022<br><br>Haf 2022<br><br>Hydref 2022<br><br>Gwanwyn 2023<br><br>Gwanwyn 2024 |
| | 1d. Cynnig am grant cyfalaf pellach y Cynnig Gofal Plant i ddatblygu lleoliad gofal dydd llawn newydd yng Ngogledd Ebwy Fach (Bryn-mawr) | Cyflwyno cynnig grant pan fydd y rhaglen grant nesaf yn agor | I'w chadarnhau |
| 2. Cefnogi'r gwaith o gyflwyno gofal plant Dechrau'n Deg i bob plentyn 2 oed o fis Medi 2022 | 2a. Cefnogi tîm Dechrau'n Deg i asesu'r angen am leoedd gofal plant ychwanegol, gan ganolbwyntio ar gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg a mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth sydd ar gael. | Unwaith y cytunir ar ardal gyflwyno, mapio'r ddarpariaeth leol, gan nodi bylchau. | Haf 2022 – parhaus |
| | 2b. Cefnogi rhaglen Dechrau'n Deg i osod manyleb ar gyfer gwarchodwyr plant i ddod yn ddarparwyr Dechrau'n Deg. | Datblygu manyleb gwarchodwr plant a hyrwyddo'r cynllun i warchodwyr plant lleol, gan gynnwys cyngor ar DPP / llwybrau cymhwyso. | Haf 2022 – parhaus |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3. Sicrhau bod pob lleoliad gofal plant yn gynhwysol a bod plant ag anableddau yn cael mynediad at ofal addas | 3a. Sicrhau bod pob lleoliad gofal plant ym Mlaenau Gwent yn gynhwysol ac yn gallu cynnig gofal addas. | Y Gweithiwr Cymorth ADY i ddatblygu offeryn archwilio i asesu pa mor gynhwysol yw lleoliadau a lefelau cydymffurfio â'r Ddeddf ADY newydd.<br><br>Cynnal asesiad o bob lleoliad.<br><br>Cynnig cymorth a gwybodaeth i gefnogi lleoliadau i fod â hyder yn eu rolau. | Hydref 2022<br><br>Hydref 2022 – parhaus |
| | 3b. Sicrhau bod anghenion hyfforddiant ADY ymarferwyr gofal plant yn cael eu hasesu, a bod y rhaglen hyfforddi flynyddol yn diwallu angen y sector o ran hyfforddiant ADY. | Panel Cymorth Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar i drafod anghenion hyfforddi'r sector a chytuno ar flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf | Haf 2022 – parhaus |
| 4. Ymestyn y dewis/mathau o ofal plant mewn perthynas â gwarchod plant a darpariaeth clwb ar ôl yr ysgol | 4a. Denu mwy o bobl i ddod yn warchodwyr plant ym Mlaenau Gwent, yn enwedig yn Sirhywi ac Ebwy Fawr, lle mae niferoedd yn is | Gweithio gyda PACEY i hyrwyddo gwarchod plant fel gyrfa.<br><br>Cynnig gwybodaeth benodol am fanteision gwarchod plant fel gyrfa i fyfyrwyr sy'n dilyn y cwrs Camau i Ofal Plant.<br><br>Adolygu'r briff i warchodwyr plant a chynnig sesiynau deirgwaith y flwyddyn.<br><br>Hyrwyddo gwarchod plant fel gyrfa yn ystod ymweliadau â grwpiau rhieni a phlant bach, ymweliadau ag ysgolion a digwyddiadau Canolfan Byd Gwaith a gyda Fforwm Amlasiantaeth Blaenau Gwent. | Haf 2022<br><br>Hydref 2022 / Gwanwyn 2023<br><br>Hydref 2022 – parhaus<br><br>Hydref 2022 – parhaus |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Gweithio gyda rhaglen Dechrau'n Deg i nodi sut y gall gwarchodwyr plant gofrestru i gyflwyno rhaglen Dechrau'n Deg ac i hyrwyddo cyfleoedd i warchodwyr plant presennol a newydd posibl. | Haf 2022 |
| | 4b. Archwilio'r potensial ar gyfer sefydlu clybiau ar ôl yr ysgol / gwyliau newydd | Gweithio gydag ysgolion i gynnal astudiaethau dichonoldeb i asesu'r angen am ofal plant ar ôl yr ysgol ac yn ystod y gwyliau, gan flaenoriaethu'r ysgolion sydd wedi colli darpariaeth yn ddiweddar.<br><br>Hyrwyddo gyrfaoedd a chymwysterau gwaith chwarae i'r gweithlu gofal plant ac addysg presennol, a myfyrwyr coleg a Blwyddyn 11. | Hydref 2022 – Gwanwyn 2024<br><br>Hydref 2022 – parhaus |
| 5. Ymestyn opsiynau Cymraeg rhieni/gofalwyr sy'n chwilio am ofal plant | 5a. Cynyddu defnydd o'r Gymraeg o fewn lleoliadau presennol, fel bod cynnydd yn nifer y lleoliadau sy'n nodi eu bod yn gweithredu yn Gymraeg ac yn Saesneg yn yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant nesaf | Hyrwyddo dysgu Cymraeg i'r gweithlu cyfan, drwy'r dulliau canlynol:<br>• Digwyddiadau rhwydwaith<br>• Ymweliadau monitro / sicrhau ansawdd<br>• Hyfforddiant<br>• Datblygu adnoddau Cymraeg<br>• Cyfeirio at gydlynwyr Cymraeg Camau a Chwlwm<br><br>Gweithio gyda rhaglen SAS Mudiad Meithrin i nodi'r potensial ar gyfer ymestyn y peilot o sesiynau cyfrwng Cymraeg mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg | Hydref 2022 – parhaus<br><br>Hydref 2022 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 5b. Sefydlu'r angen am ofal ar ôl yr ysgol cyfrwng Cymraeg gyda disgyblion yn defnyddio Ysgol Bro Helyg a'r ysgol eginblanhigyn newydd sydd ar y gweill ar gyfer Tredegar | Dylunio a chynnal astudiaeth ddichonoldeb i'w defnyddio yn Ysgol Bro Helyg (gan gofio bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio cludiant ysgol)<br><br>Ailadrodd yr uchod ar gyfer yr ysgol eginblanhigyn newydd pan fydd ar agor | Gwanwyn 2023<br><br>Hydref 2024 |
| | 5c. Fel rhan o'r rhaglenni cyfalaf (gweler uchod), chwilio am ddarparwyr Cymraeg a'u sefydlu yng Nglyncoed (Ebwy Fawr) a Thredegar (Sirhywi) | Dogfennau tendro i amlinellu gofynion y Gymraeg a'r disgwyliad o ran cyflawni | Gwanwyn 2023 |
| 6. Rhoi systemau cadarn ar waith ar gyfer casglu gwybodaeth am faterion yn ymwneud â gofal plant gan rieni/gofalwyr neu randdeiliaid eraill | 6a. Sefydlu system ddilynol ar gyfer cysylltu ag ymholwyr i'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i nodi lle mae rhieni wedi cael anhawster wrth gael mynediad at ofal plant neu faterion eraill yn ymwneud â gofal plant | Sefydlu system ymholiadau<br><br>Cynnwys adran ar wefan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, sy'n cael ei datblygu, i adrodd am faterion yn ymwneud â gofal plant | Hydref 2022<br><br>Hydref 2022 |
| | 6b. Annog rhanddeiliaid mewn sefydliadau eraill i rannu gwybodaeth â ni pan nodir rhieni sy'n cael anawsterau wrth gael mynediad at ofal plant | Cynnal archwiliad fesul ardal o wasanaethau a sefydliadau a allai ddod yn hyrwyddwyr y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd<br><br>Cyflwyno cynllun hyrwyddwyr y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd<br><br>Datblygu system ar gyfer adrodd am faterion | Hydref 2022<br><br>Gwanwyn 2023<br><br>Haf 2023 |
| 7. Datblygu cynllun datblygu'r gweithlu, gan ystyried materion recriwtio a chadw a | 7a. Sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried materion recriwtio a chadw, i lywio cynllun datblygu'r gweithlu | Nodi rhanddeiliaid priodol<br><br>Sefydlu cyfarfodydd | Haf 2022<br><br>Hydref 2022 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| gosod camau gweithredu allweddol i gefnogi'r sector | | Llunio cynllun datblygu’r gweithlu | Gwanwyn 2023 |